



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Cynlluniau ar gyfer Rheolau Colegau Diogel

Hydref 2014



Cynlluniau ar gyfer Rheolau Colegau Diogel

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
o dan Orchymyn Ei Mawrhydi

Hydref 2014



© Hawlfraint y Goron 2014

Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored c.2. I weld y drwydded hon edrychwch ar www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2/ neu e-bostio PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Pan nodir deunydd trydydd parti, rhaid ceisio cael caniatâd gan ddeilydd yr hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn securecollegerules@justice.gsi.gov.uk

ISBN Argraffiad 9781474111133

ISBN y We 9781474111140

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Reolwr Swyddfa Llyfrfa Ei Mawrhydi.

ID 02101411 10/14

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Ar gyfer:

Anelir yr ymgynghoriad hwn at: weithredwyr ystadau diogel presennol ac arfaethedig; ymarferwyr cyfiawnder ieuencid a gweithredwyr gwasanaethau; pobl ifanc sydd yn y system gyfiawnder ieuencid a'u teuluoedd a'u gofalwyr; a'r rhai hynny sydd â buddiant yn yr ystâd ddiogel i ieuencid yn cynnwys seneddwyr a grwpiau hawliau plant, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol. Rydym hefyd yn gwahodd aelodau'r cyhoedd i ymateb.

Cyfnod:

Rhwng 16 Hydref 2014 a 27 Tachwedd 2014

Ymholiadau (yn cynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) i:

Secure College Rules Consultation

Ministry of Justice
8.19, 102 Petty France
London SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 5418

E-bost: securecollegerules@justice.gsi.gov.uk

Sut i ymateb:

Ymatebwch erbyn 27 Tachwedd 2014 yn:
<https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/plans-for-secure-college-rules>

Ffyrdd ychwanegol o gyflwyno eich safbwyntiau:

Anfonwch eich ymateb erbyn 27 Tachwedd 2014 i:

Secure College Rules Consultation
Ministry of Justice
8.19, 102 Petty France
London SW1H 9AJ

E-bost: securecollegerules@justice.gsi.gov.uk

Cynnwys

Rhagair	3
Cyflwyniad	4
Cefndir	5
Y cynigion	7
Holiadur	35
Amdanoch chi	38
Manylion cysylltu/Sut i ymateb	39
Egwyddorion ymgynghori	40

Rhagair

Gan yr Ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Andrew Selous AS

Ym mis Ionawr eleni bu i ni sefydlu ein gweledigaeth ar gyfer trawsnewid trefniadau caethiwed i bobl ifanc yn cynnwys cynlluniau i greu Colegau Diogel, math newydd o sefydliad addysgol diogel er mwyn sicrhau bod addysg yn rhan ganolog o'r broses gadw. Mae pob person ifanc yn haeddu cael addysg o ansawdd uchel a fydd yn caniatáu iddynt gyflawni eu potensial. Mae hyn yn bwysicach os bydd person ifanc wedi dechrau ar hyd y llwybr anghywir mewn bywyd.

Bydd Colegau Diogel yn ddull gweithredu arloesol i fynd i'r afael â chyfraddau aildroseddu sy'n ystyfnig o uchel mewn caethiwed i bobl ifanc, gan symud i ffwrdd o amgylchedd traddodiadol barrau ar ffenestri a rhoi addysg a hyfforddiant ar y blaen. Byddant yn arfogi troseddwr ifanc â'r sgiliau, y cymwysterau a'r hunanddisgyblaeth sydd eu hangen i droi eu cefn ar droseddu a dod yn aelodau cynhyrchiol a gweithgar o gymdeithas.

Rydym wedi cyflwyno'r ddeddfwriaeth ar gyfer darparu Colegau Diogel yn y Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd, ac rydym yn gweithio tuag at sefydlu cynllun braenaru Coleg Diogel yn Nwyrain Canolbarth Lloegr yn 2017.

Rydym eisiau i weithredwr Colegau Diogel gael yr hyblygrwydd i ddatblygu dulliau arloesol wedi'u teilwra ar gyfer anghenion y bobl ifanc a gedwir yno ac i ysgogi ac ysbrydoli pobl ifanc i droi eu cefnau ar droseddu. Bydd Colegau Diogel hefyd yn integreiddio addysg ag ystod o wasanaethau eraill er mwyn bodloni anghenion pobl ifanc a'u cadw'n ddiogel bob amser, tra'n sicrhau hefyd bod y cyhoedd yn cael eu hamddiffyn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd safbwyntiau ynglŷn â'n cynlluniau ar gyfer Rheolau Colegau Diogel. Mae'r Rheolau yn gosod y paramedrau allweddol y bydd raid i'r Colegau Diogel weithredu oddi fewn iddynt. Maent yn ymdrin â materion critigol megis diogelu pobl ifanc, cyfundrefn, a defnyddio grym - materion y mae'n bwysig i ni geisio safbwyntiau ehangach amdanynt.

Ein hamcan yw bod Colegau Diogel yn darparu gwell gwasanaethau ar gyfer addysgu a gofalu am bobl ifanc, a mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol. Rwyf yn croesawu eich cyfraniad tuag at sicrhau y gall pobl ifanc wireddu eu potensial a byw bywyd â phwrpas iddo ar ôl eu rhyddhau.

Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn nodi ein hymagwedd tuag at Reolau Colegau Diogel ar gyfer ymgynghori.
2. Mae'r ymgynghoriad hwn ar gael yn y Gymraeg hefyd yn (<https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/plans-for-secure-college-rules>).
3. Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag Egwyddorion Ymgynghori'r Llywodraeth, a gellir gweld y rhain yn: <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.
4. Nid ydym wedi cwblhau Asesiad Effaith oherwydd ni fyddai'r Rheolau yn effeithio ar sefydliadau sy'n bodoli yn y sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector.
5. Croesewir ac anogir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb neu sydd â safbwyntiau ar y testun yr ymdrinnir ag ef yn y papur hwn.

Cefndir

Ym mis Chwefror 2013 cyhoeddodd y Llywodraeth bapur ymgynghorol, *Trawsnewid Trefniadau Caethiwed i Bobl Ifanc: Rhoi lle amlwg i addysg mewn caethiwed*. Roedd hwn yn nodi gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer trawsnewid trefniadau caethiwed i bobl ifanc er mwyn tacllo cyfraddau aildroseddu uchel a chostau uchel, ac i roi lle amlwg i addysg safonol yn yr ymdrechion i adsefydlu troseddwr ifanc. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio safbwyntiau gan ystod eang o sefydliadau ac unigolion ynglŷn â sut y dylid gweithredu gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer Colegau Diogel.

Ym mis Ionawr 2014 cyhoeddodd y Llywodraeth ei ymateb i ymgynghoriad Trawsnewid Trefniadau Caethiwed i Bobl Ifanc gan amlinellu ei chynlluniau i gyflwyno Colegau Diogel, math newydd o lety cadw pobl ifanc gyda darpariaeth addysg arloesol yn rhan greiddiol ohono a fydd yn rhoi'r sgiliau, cymwysterau a'r hunanddisgyblaeth angenrheidiol i droseddwr ifanc er mwyn iddynt allu troi eu cefnau ar droseddu. Bu i'r ymateb i'r ymgynghoriad gadarnhau y byddai Cynllun Braenaru Coleg Diogel yn cael ei gyflwyno yn Nwyrain Canolbarth Lloegr yn 2017. Os bydd y Cynllun Braenaru yn llwyddiant bydd yn hysbysu ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol ystâd cystodaeth pobl ifanc yng Nghymru a Lloegr.

Ar 5 Chwefror 2014 cyflwynwyd Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd yn y Senedd oedd yn cynnwys darpariaethau sy'n gosod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer Colegau Diogel. Mae'r darpariaethau hyn yn cynnwys pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol sefydlu Rheolau fydd yn llywodraethu sut y gweithredir y Colegau Diogel. Disgwylir y bydd y Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol cyn diwedd 2014.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r polisïau fydd yn hysbysu'r rheolau statudol sy'n llywodraethu'r Colegau Diogel ("Rheolau Colegau Diogel" neu'r "Rheolau").

Pwrpas y rheolau fydd gosod y paramedrau creiddiol y bydd yn ofynnol i'r Colegau Diogel weithredu oddi mewn iddynt er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel, a bod eu hanghenion addysgol ac adsefydlu yn cael eu bodloni. Bydd y Rheolau'n ymdrin â materion sydd mor hanfodol bwysig o ran gweithredu'r Colegau Diogel yn effeithiol fel bod y Llywodraeth yn credu bod angen sefydlu hynny mewn deddfwriaeth. Bydd y Rheolau hefyd yn ymdrin â gofynion Adran 47 Deddf Carchardai 1952 (y pŵer mewn deddfwriaeth sylfaenol i greu Rheolau Colegau Diogel).

Yn ogystal â cheisio safbwyntiau ynghylch a yw'r polisïau sy'n hysbysu'r Rheolau hyn yn briodol, rydym hefyd yn gwahodd safbwyntiau ynghylch a ydym wedi nodi'r meysydd cywir y mae angen i'r Rheolau eu cynnwys.

Bydd cystadleuaeth i ganfod gweithredwr ar gyfer Cynllun Braenaru'r Colegau Diogel yn cychwyn yn gynnar yn 2015. Bryd hynny byddwn yn cynhyrchu manyleb gweithredu drafft ar gyfer Cynllun Braenaru'r Colegau Diogel. Gan adeiladu ar y gofynion sylfaenol sydd i'w sefydlu gan y Rheolau, bydd y fanyleb ddrafft hon yn nodi mwy o fanylion mewn perthynas â'r gyfundrefn a'r gwasanaethau y byddwn yn disgwyl i'r gweithredwr eu darparu drwy Gynllun Braenaru'r Colegau Diogel. Bydd y fanyleb gweithredu drafft yn destun mwy o ddatblygiad a chytundeb â gweithredwr arfaethedig fel rhan o'r broses gaffael honno. Hyd yma, nid oes unrhyw benderfyniadau wedi cael eu gwneud ynglŷn â phwy fydd yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Braenaru'r Colegau Diogel.

Yn y ddogfen ymgynghori hon drwyddi draw rydym wedi cynnwys cyfeiriadau at yr hyn yr ydym yn meddwl fydd yn y fanyleb gweithredu drafft ar gyfer Cynllun Braenaru'r Colegau Diogel. Darperir y wybodaeth hon dim ond er mwyn rhoi mwy o gyd-destun i ymgynghoreion ynglŷn â sut mae'r Rheolau'n debygol o gydweddu â'r fanyleb gweithredu drafft, ac felly sut y gellid cynnal Cynllun Braenaru'r Colegau Diogel. Mewn nifer o achosion bydd y fanyleb gweithredu drafft yn ymestyn y gofynion elfennol a sefydlwyd gan y Rheolau.

Tra'n dilyn y gofynion a nodir yn y Rheolau a chydymffurfio â'r fanyleb gweithredu gytunedig derfynol ar gyfer Cynllun Braenaru'r Colegau Diogel, ein gobaith yw y bydd gan weithredwyr ddigon o hyblygrwydd i arloesi a datblygu modelau gweithredu a fydd yn addysgu ac yn adsefydlu'r bobl ifanc sy'n eu gofal yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Drafftio'r Rheolau'n ddangosol

Nid yw'r ddogfen hon yn ymgynghori ar eiriad arfaethedig y Rheolau eu hunain. Rydym yn credu y bydd ymgynghori ar yr egwyddorion sylfaenol yn hytrach na drafftio manwl yn golygu y bydd yn haws i ymgynghoreion ystyried y materion. Fodd bynnag, rydym wedi darparu ychydig o ddrafftio dangosol mewn perthynas â Rheolau ynglŷn â defnyddio grym oherwydd ein bod yn cydnabod bod hwn yn destun sydd o ddiddordeb neilltuol.

Y cynigion

Colegau Diogel: Y Cyd-destun

Y **Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd** sy'n nodi'r fframwaith statudol ar gyfer Colegau Diogel. Mae hyn yn cynnwys sefydlu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r **Pennaeth** a'r **Monitor**.

Y **Pennaeth** fydd pennaeth y Coleg Diogel a bydd yn gyfrifol am weithredu a chynnal y coleg yn ddiogel. Hefyd, bydd yn rhaid i bob Coleg Diogel a gontractir allan gael **Monitor**. Mae'n rhaid i'r Monitor fod yn was i'r Goron a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Un o swyddogaethau'r Monitor yw adolygu'r ffordd y mae'r Coleg Diogel yn cael ei redeg, ac adrodd am hyn i'r Ysgrifennydd Gwladol. Bydd rhai o'r Rheolau a amlinellir yn y ddogfen hon drwyddi draw yn rhoi mwy o gyfrifoldebau i'r Pennaeth a'r Monitor.

Pwrpas y Colegau Diogel

Mae'r adran hon yn amlinellu'r egwyddorion a'r amcanion fydd yn sylfaen i redeg y Colegau Diogel.

Pwrpas ac Ethos

Mae pwrpas ac ethos Coleg Diogel yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer rhedeg y Coleg Diogel, a'r sylfaen ar gyfer darparu gwasanaethau i bobl ifanc o ddydd i ddydd.

Bydd Colegau Diogel yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar droseddwr ifanc er mwyn rhoi'r gorau i droseddu a bod yn aelodau didrosedd o'r gymuned. Bydd Colegau Diogel yn sicrhau bod addysg o safon uchel yn rhan greiddiol o gyfundrefn sy'n addysgu pobl ifanc ac yn darparu gwasanaethau adsefydlu iddynt. O gychwyn dedfryd person ifanc bydd raid i'r Colegau Diogel sicrhau eu bod yn edrych i'r dyfodol er mwyn paratoi pobl ifanc ar gyfer dychwelyd i'w cymunedau a setlo ynddynt o'r newydd. **Rydym yn cynnig sefydlu Rheol fydd yn nodi pwrpas ac ethos sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn.**

<p>1. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid cael Rheol mewn perthynas â phwrpas ac ethos Coleg Diogel? Os ydych, a ydych yn meddwl ein bod wedi ystyried y blaenoriaethau priodol?</p>

Cohortau a throseddwr, yn cynnwys genethod

Er bod gan bob person ifanc anghenion unigol, bydd yn bosibl adnabod grwpiau neu gohortau o droseddwr fydd yn cael eu rhoi mewn Colegau Diogel. Byddai modd adnabod cohortau o'r fath drwy amrywiaeth o nodweddion - er enghraifft, rhyw, oed, a ydy'r person ifanc wedi cael ei ddedfrydu neu a yw'n garcharor sifil, y math o ddedfryd a gafodd, neu oes ganddo anawsterau dysgu Oherwydd bod gan bobl ifanc yn aml gyfres o nodweddion sy'n eu diffinio, sy'n golygu na fydd hi efallai'n bosibl diffinio eu bod yn perthyn i ddim ond un grŵp neu gohort, ac oherwydd gall nodweddion y boblogaeth o bobl ifanc mewn caethiwed newid dros amser, rydym yn credu y byddai'n wrthgynhyrchiol ceisio pennu grwpiau neu gohortau o bobl ifanc yn y Rheolau a byddai'n creu'r risg o gyfyngu

gweithredwyr Colegau Diogel o ran sut maent yn ymateb i'r ystod lawn o anghenion sy'n cael eu cyflwyno gan berson ifanc.

Mewn perthynas â genethod y ceir yr unig eithriad i'r ymagwedd hon, ac **rydym yn cynnig sefydlu Rheol i sicrhau llety ar wahân ar gyfer genethod a bechgyn**. Hefyd, os bydd hyn yn gynnwyseddig yng Nghynllun Braenaru'r Colegau Diogel, ar hyn o bryd mae'n fwriad gennym i'r fanyleb weithredu ofyn am ddatblygu ymyriadau fydd yn rhyw benodol pan fo'r angen.

2. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol sy'n sicrhau llety ar wahân i enethod a bechgyn?

Cyfundrefn

Mae'r adran hon yn amlinellu cyfres o gynigion o ran y gyfundrefn mewn Coleg Diogel.

Addysg

Mae addysg yn rhan ganolog o weledigaeth y Llywodraeth ar gyfer Colegau Diogel. **Rydym yn cynnig Rheol ar addysg a fyddai'n gosod gofyniad i'r Pennaeth sefydlu o leiaf 30 awr yr wythnos o weithgareddau addysgol ar gyfer pobl ifanc**. Gall gweithgareddau addysgol gynnwys astudiaethau academaidd, fel datblygu sgiliau craidd fel llythrennedd a rhifedd, hyfforddiant galwedigaethol, datblygu sgiliau bywyd, a gweithgareddau i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol ac arfogi pobl ifanc â'r sgiliau i arwain bywydau didrosedd.

Rydym hefyd yn cynnig sefydlu Rheolau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i bob person ifanc gael asesiad dysgu unigol wrth gyrraedd Coleg Diogel gan arwain at ddatblygu cynllun dysgu unigol. Dylid cynnal yr asesiad gyda'r rhai fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r person ifanc yn y gymuned yn dilyn ei ryddhau. Byddai'r cynllun dysgu unigol yn rhoi'r amcanion sydd i'w cyflawni yn ystod dedfryd y person ifanc. Byddai'r cynllun yn cynnwys y gefnogaeth mae'r Coleg Diogel a phartneriaid eraill yn ei darparu, gan gynnwys Timau Troseddwyr Ifanc. Dylid adolygu'r Cynllun yn rheolaidd yn ystod cyfnod person ifanc yn y Coleg Diogel.

3. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid cael Rheol a fyddai'n golygu ei bod yn rhaid sefydlu o leiaf 30 awr yr wythnos o weithgareddau addysgol ar gyfer pobl ifanc?

4. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid cael Rheolau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i bob person ifanc gael asesiad dysgu unigol wrth gyrraedd Coleg Diogel a llunio cynllun dysgu unigol?

Y tu hwnt i'r Rheolau statudol yma, mae ein hymagwedd ehangach tuag at Golegau Diogel yn adlewyrchu ein hymagwedd tuag at addysg yn Lloegr. Rydym eisiau i weithredwyr fod yn arloesol wrth ddarparu addysg. Bydd y rhaglen addysg hefyd yn cynnwys ymyriadau a gweithgaredd adsefydlu fydd yn cyfrannu at ddatblygiad y person ifanc o ran sgiliau bywyd, gyda digon o hyblygrwydd i weithredwyr ymateb i anghenion unigol pobl ifanc. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd gweithredwyr yn defnyddio ystod o dechnolegau'n effeithiol er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth addysg fyddant yn ei gynnig i'r Colegau Diogel.

Rydym yn disgwyl i weithredwyr gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys sy'n canolbwyntio ar lythrennedd, rhifedd, TGCh ac Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd (ABGI) sy'n sicrhau bod dysgwyr yn datblygu ac yn cymhwyso ystod eang o sgiliau o ran darllen, ysgrifennu, cyfathrebu a mathemateg. Rydym eisiau annog gweithredwyr i ddefnyddio rhyddfrefiniau sydd ar gael i Academiau er mwyn personoleiddio dysgu. Rydym am annog hyn er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth mewn Colegau Diogel yn galluogi pobl ifanc i wireddu eu potensial ac yn ymdrin ag unrhyw rwystrau rhag dysgu.

Disgwylir i weithredwyr ddarparu cwricwlwm hyblyg y bydd modd ei deilwra i ddysgwyr o bob gallu yn cynnwys rhai ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (AAAA). Dylai'r cwricwlwm gynnwys cymwysterau wedi'u cymeradwyo gan yr Adran Addysg sydd o safon uchel, sy'n gadarn ac sy'n galluogi dilyniant i ystod o gyfleoedd astudio a chyflogaeth. Fel arfer bydd hyn yn cynnwys cymwysterau TGAU a Lefel A; rhaglenni lefel sylfaen; rhaglenni galwedigaethol cydnabyddedig sy'n cyfrannu at fod yn 'barod am waith'; sgiliau ffwythiannol; paratoad ar gyfer prentisiaeth a chefnogaeth barhaus er mwyn helpu pobl ifanc wneud cais am brentisiaeth neu barhau mewn addysg briodol fydd yn arwain at brentisiaeth neu ryddhau. Hefyd bydd gofyn i'r gweithredwyr ddefnyddio ystod eang o dechnegau y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth ffurfiol er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc ac annog dysgu.

Bydd angen i weithredwyr gydymffurfio â'r gofynion statudol a amlinellir yng Nghod Ymarfer AAAA 0-25 Oed, mewn perthynas â phlant a phobl ifanc a gedwir mewn cystodaeth ieuencid, a bydd hyn yn cychwyn ym mis Ebrill 2015. Bydd gweithredwyr yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a cholegau, awdurdodau lleol, Timau Troseddwyr Ifanc, darparwyr gofal iechyd a phartneriaid eraill er mwyn cyflawni dyletswyddau statudol mewn perthynas â dysgwyr gydag AAAA.

Wrth ddelio ag unrhyw bobl ifanc o Gymru bydd angen i weithredwyr ystyried a chydymffurfio, pan fo'n angenrheidiol, â chodau ymarfer a rheoliadau perthnasol er mwyn bodloni anghenion addysgol pobl ifanc fydd yn cael eu hail integreiddio i'r system addysg yng Nghymru yn dilyn eu rhyddhau.

Llyfrgell

Rydym yn cynnig y dylid sefydlu Rheol bod rhaid darparu llyfrgell i bobl ifanc mewn Colegau Diogel.

5. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparu llyfrgell mewn Colegau Diogel?

Staffio

Un o'r ffactorau critigol o ran llwyddiant Colegau Diogel fydd safon ac ymrwymiad y staff. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid wedi gweithio gyda gweithredwyr ystadau ieuencid presennol er mwyn datblygu hyfforddiant sy'n eu harfogi â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i weithio gyda phobl ifanc mewn caethiwed. **Rydym yn cynnig sefydlu Rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol bod yr holl staff gwarchodol sy'n gweithio mewn Colegau Diogel wedi derbyn hyfforddiant sydd wedi'i gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol.**

6. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol bod yr holl staff gwarchodol sy'n gweithio mewn Colegau Diogel wedi derbyn hyfforddiant sydd wedi'i gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol?

Bydd ein hymagwedd gyffredinol hefyd tuag at staff addysg mewn Colegau Diogel yn adlewyrchu ymagwedd y Llywodraeth hon tuag at addysg yn Lloegr. Fel yn achos Academiâu, y gweithredwyr addysg fydd yn penderfynu ar y ffordd orau o wella ymgysylltu addysgol a chyrhaeddiad pobl ifanc mewn Coleg Diogel a'r staff y bydd eu hangen i wneud hyn. Ers mis Gorffennaf 2012, gall Academiâu prif lif a darpariaeth amgen gyflogi staff dysgu heb y gofyniad iddynt fod â Statws Athro Cymwysedig (SAC). Rydym yn credu ei bod yn briodol mabwysiadu'r un ymagwedd tuag at Golegau Diogel, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau addysgol y sefydliad yn hytrach nag ar y staff a gyflogir ganddynt.

Rydym yn disgwyl y bydd y staff addysg fydd yn cael ei recriwtio gan y gweithredwyr yn adlewyrchu'r cwricwlwm a ddarperir yn y Coleg Diogel ac anghenion penodol y bobl ifanc yn y sefydliad. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cynnwys cydbwysedd o staff dysgu fydd â Statws Athro Cymwysedig (SAC). Mae'n ofynnol i Gydlynwyr Anghenion Addysg Arbennig mewn Academiâu ddal SAC a byddwn yn defnyddio'r un gofyniad mewn Colegau Diogel.

Cod gwisg

Mae llunio cod gwisg yn gallu chwarae rôl werthfawr o ran cyfrannu at ethos sefydliad. Rydym eisiau i'r Pennaeth gael disgrisiwn ar y cod gwisg ar gyfer y Coleg Diogel. **Felly, rydym yn cynnig sefydlu Rheol fydd yn gofyn i Golegau Diogel gael polisi ar god gwisg.**

7. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol fydd yn gofyn i Golegau Diogel gael polisi cod gwisg?

Gofal iechyd

Ers mis Ebrill 2013 GIG Lloegr (a elwid gynt yn Fwrdd Comisiynu'r GIG) sydd wedi bod yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau iechyd mewn carchardai a sefydliadau cadw rhagnodedig eraill yn Lloegr. Rydym yn bwriadu i GIG Lloegr gomisiynu'r ddarpariaeth gofal iechyd, yn cynnwys darpariaeth arbenigol, ar gyfer Cynllun Braenaru'r Colegau Diogel, gan gyfeirio at Safonau Gofal Iechyd Rhyng-golegol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc mewn Sefydliadau Diogel a gyhoeddwyd gan Goleg Brenhinol y Peditryddon ac Iechyd Plant. Bydd GIG Lloegr yn asesu anghenion gofal iechyd pobl ifanc mewn Colegau Diogel ac yn comisiynu gwasanaethau, yn cynnwys darpariaeth arbenigol, sy'n briodol ar gyfer bodloni'r anghenion a aseswyd.

Mae GIG Lloegr yn ddarostyngedig i ystod eang o ddyletswyddau statudol, ac mae'n atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r cyhoedd o ran sut mae'n cyflawni'r rhain. Mae GIG Lloegr yn rhoi cyfrifoldeb i'w ddarparwyr drwy'r broses gontractio arferol. Mae gan holl ddarparwyr gwasanaethau'r GIG systemau mewnol ar gyfer monitro darparu gwasanaethau, ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion y Comisiwn Ansawdd Gofal sy'n cofrestru ac yn archwilio darparwyr. Mae trefniadau gofal iechyd cymaradwy yn bodoli yng Nghymru, drwy GIG Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru petai unrhyw Golegau Diogel yn cael eu lleoli yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae hyn yn golygu nad y Rheolau yw'r lle iawn ar gyfer gosod dyletswyddau ar staff gofal iechyd. Mae darparwyr gofal iechyd yn atebol drwy'r broses a ddisgrifir uchod. Rôl Colegau Diogel mewn perthynas â gofal iechyd yw darparu amgylchedd ble mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gallu gwneud eu gwaith a chyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag iechyd a gofal y bobl ifanc yn y Coleg Diogel. **Felly rydym yn cynnig sefydlu Rheol i sicrhau bod gan berson ifanc fynediad diogel a phrydlon i wasanaethau iechyd mewn Colegau Diogel.**

8. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol i sicrhau bod gan berson ifanc fynediad diogel a phrydlon i wasanaethau iechyd mewn Colegau Diogel?

Asesu wrth gyrraedd a diogelu

Bydd asesu cynhwysfawr a diogelu pobl ifanc yn rhan ganolog o ddarparu'r holl wasanaethau mewn Coleg Diogel. Mae'n ofynnol bod gan bob sefydliad diogel i bobl ifanc presennol bolisi diogelu a gwarchod plant yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol presennol. Mae'r gofynion hyn yn deillio o Ddeddfau Plant 1989 a 2004 ac fe'u disgrifir hefyd yn Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant (2013)¹ sy'n nodi:

'Dylai bod gan bob canolfan sy'n dal pobl ifanc o dan 18 oed bolisi diogelu plant a adolygir yn flynyddol. Dyluniwyd y polisi i hyrwyddo a diogelu lles plant a dylai gynnwys materion megis amddiffyn plant, risg o niwed, ataliaeth, recriwtio a rhannu gwybodaeth. Dylid penodi rheolwr diogelu plant i fod yn gyfrifol am weithredu'r polisi hwn.'

Felly'r arfer presennol mewn sefydliadau diogel yw sefydlu eu gweithdrefnau gweithredu eu hunain ynglŷn â diogelu. Byddai polisiau diogelu arfaethedig gweithredwyr yn cael eu hasesu fel rhan o broses werthuso ceisiadau ar gyfer Cynllun Braenaru'r Colegau Diogel a'u monitro'n rheolaidd gan Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Monitor.

Mae'r Safonau Gofal Iechyd Rhyng-golegol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc mewn Colegau Diogel, fydd yn cael eu mabwysiadu ar gyfer Colegau Diogel, yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiad gofal iechyd cyn gynted ag y mae'n rhesymol ymarferol ar ôl i berson ifanc gyrraedd y Coleg Diogel, ac mewn unrhyw achos ni ddylai hynny fod yn ddim hwyrach na dwy awr ar ôl cyrraedd. Bydd yr asesiad gofal iechyd yn cael ei gynnal gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Yn unol â'r Rheol ar ofal iechyd sy'n cael ei chynnig uchod, **felly rydym yn cynnig sefydlu Rheol fydd yn sicrhau bod gan bobl ifanc fynediad diogel a phrydlon i'r asesiad gofal iechyd hwn.**

9. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol i sicrhau bod Colegau Diogel yn darparu fynediad diogel a phrydlon i weithwyr gofal iechyd proffesiynol i gynnal asesiad gofal iechyd?

Pan fo person ifanc yn cyrraedd Coleg Diogel am y tro cyntaf, ein polisi yw na ddylid ei gloi mewn ystafell am y noson gyntaf, y bydd yn cael cynnig bwyd a diod, y dewis i fynd am gawod, a'i fod yn cael dillad addas os oes angen. **Rydym yn cynnig sefydlu Rheol i sicrhau bod y gweithdrefnau yma'n cael eu dilyn yn ystod noson gyntaf person ifanc mewn caethiwed.**

¹ <https://www.gov.uk/government/publications/working-together-to-safeguard-children>

10. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol sy'n nodi'r cyfleusterau y dylid eu darparu yn ystod y noson gyntaf o dan warchodaeth? Os ydych, beth ydych yn meddwl dylid ei gynnwys?

Mae'n fwiad gennym i fanyleb gweithredu'r Cynllun Braenaru osod gofynion ychwanegol mewn perthynas â diogelwch a lles. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu trefniadau llywodraethu gyda'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol. Bydd disgwyl hefyd i'r gweithredwyr osod mesurau i sicrhau bod risgiau sy'n ymwneud â hunan-niwed a niwed gan eraill yn cael eu rheoli yn ystod cludo a thywys. Bydd hyn hefyd yn cynnwys tywys pobl ifanc yn ddiogel o gwmpas y Coleg Diogel a sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cymysgu'n ddiogel yn yr ardaloedd llety a chymunedol er mwyn rheoli gangiau yn briodol, mathau gwahanol o droseddau, a phan fo'n berthnasol, gwahanol oeddrannau a rhywiau. Bydd y polisiâu hyn yn destun craffu annibynnol rheolaidd gan y Bwrdd Diogelu Plant Lleol a byddant yn cael eu diweddarau fel bo'r angen yn dilyn unrhyw beth a ddysgir o ddigwyddiadau'n ymwneud â diogelwch.

Gwybodaeth wrth gyrraedd

Rydym yn cynnig sefydlu Rheol sy'n gofyn i Golegau Diogel ddarparu gwybodaeth allweddol i berson ifanc pan fydd yn cyrraedd Coleg Diogel (er enghraifft, sut i gynnal cysylltiad â theulu a ffrindiau, trefniadau cysgu, bwyta a gofal iechyd). Mae'n rhaid i'r Pennaeth gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei darparu i bobl ifanc mewn fformat y gallant ei ddeall.

11. Cwestiwn: A ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu Rheol fydd yn sicrhau bod yn rhaid i Golegau Diogel ddarparu gwybodaeth allweddol i berson ifanc pan fydd yn cyrraedd y Coleg? Os ydych, a oes yna wybodaeth benodol y dylai ei gynnwys?

Llety

Rydym yn cynnig sefydlu rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo'r holl lletyau cysgu. Byddai hyn yn sicrhau bod lletyau cysgu yn cyrraedd safonau penodol o ran anheddau, yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â diogelwch. Bydd yna drefniadau eglur yn y fanyleb weithredu i'r Monitor wirio ac adrodd bod lletyau cysgu yn parhau i fodloni'r safonau hyn. **Rydym hefyd yn cynnig sefydlu Rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparu dillad gwely i bobl ifanc sy'n ddigonol o ran cynhesrwydd ac iechyd.**

12. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo'r lletyau cysgu?

13. Cwestiwn: A ydych hyn cytuno bod Rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparu dillad gwely i bobl ifanc sy'n ddigonol o ran cynhesrwydd ac iechyd?

Mae gan y rhan helaeth o'r bobl ifanc sydd yn yr ystâd ddiogel i ieuencid ystafelloedd gwely eu hunain. Ein polisi yw bod hyn yn parhau mewn Colegau Diogel, ond rydym yn credu y dylid cael yr opsiwn i ddau berson ifanc rannu ystafell os bydd hynny er lles iddynt ac y gellir rheoli unrhyw risgiau i ddiogelwch a lles. Mewn rhai achosion, bydd rhannu ystafell yn rhoi sicrwydd i berson ifanc a gall fod yn llesol. Hefyd, gallai helpu i ddelio â sefyllfaoedd pan fo galw eithriadol o uchel am lefydd a byddai trosglwyddo pobl ifanc i sefydliad arall o bosibl yn achosi mwy o niwed oherwydd y byddai'n amharu ar eu hamser mewn cystodaeth.

Nid ydym yn cynnig sefydlu Rheol sy'n nodi'r amgylchiadau pan fyddai rhannu ystafelloedd yn briodol ond rydym yn **cynnig sefydlu Rheol sy'n golygu y byddai rhannu ystafell dim ond yn digwydd ar ôl gwneud asesiad risg sy'n casglu na fyddai'n niweidiol i ddiogelwch a lles person ifanc cyn i unrhyw rannu ddiogelwch.**

14. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid sefydlu rheol sy'n golygu y byddai rhannu ystafell dim ond yn digwydd ar ôl gwneud asesiad risg sy'n casglu na fyddai'n niweidiol i ddiogelwch a lles person ifanc cyn i unrhyw rannu ystafelloedd ddigwydd?

Bwyd

Rydym yn cynnig sefydlu Rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Golegau Diogel ddarparu tri phryd bwyd bob dydd, ac un o'r rhai hynny'n cynnwys opsiwn bwyd poeth. Dylid darparu bwyd digonol a dylai fod yn ddietau iach a chytbwys. Bydd y Rheol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Coleg Diogel sicrhau bod y bwyd a ddarperir yn ystyried anghenion diwyllianol, crefyddol a meddygol yr holl bobl ifanc yn y sefydliad.

15. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid cael Rheol ynghylch bwyd? Os ydych, a ydych yn cytuno bod y cynnig uchod yn ymdrin yn ddigonol â'r hyn y dylid ei gynnwys mewn Rheol o'r fath?

Hylendid

Rydym yn cynnig sefydlu Rheol y dylai pob person ifanc gael yr hawl i gael cawod boeth unwaith y dydd.

16. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid cael Rheol ar yr hawl i gawodydd?

Ymweliadau

Mae'n hanfodol bod Colegau Diogel yn cefnogi pobl ifanc i gynnal perthynas â'u teuluoedd a phobl bwysig eraill yn eu bywydau. Yn yr ystâd bresennol, mae yna wahanol fathau o ymweliadau, o sesiynau un awr i ddyddiau ymweld llawn pan fo rhieni neu ofalwyr yn gallu cynnal gweithgareddau gyda phobl ifanc. Rydym eisiau i Golegau Diogel ddefnyddio dull hyblyg o ymdrin ag ymweliadau wrth sicrhau hawl safonol. **Rydym yn cynnig sefydlu Rheol fydd yn gofyn i'r Pennaeth sefydlu cynllun ymweliadau fydd yn golygu bod gan bob person ifanc yr hawl i o leiaf un ymweliad yr wythnos.** Byddai'r Pennaeth yn penderfynu ar ymweliadau ychwanegol. Hysbyswyd y cynnig hwn gan arferion gweithredu presennol. Y lleiafswm hawl statudol presennol mewn Sefydliadau Troseddwr Ifanc yw 2 ymweliad mewn pob cyfnod o 4 wythnos, ac mae Rheolau Canolfannau Hyfforddi Diogel yn rhagnodi lleiafswm o un ymweliad yr wythnos.

Nid dim ond ymweliadau ydy cyswllt personol. Bydd pobl ifanc yn dymuno cadw cysylltiad â theulu, ffrindiau neu wasanaethau cefnogi drwy gyfathrebu ysgrifenedig a galwadau ffôn. Rydym eisiau i weithredwyr gal hyblygrwydd o ran sut maent yn rheoli ac yn defnyddio dulliau cyfathrebu gwahanol yn y ffordd orau. Rydym yn cynnig sefydlu Rheol sy'n gofyn i'r Pennaeth sefydlu polisi ar gyfer cysylltiad personol, fyddai'n cynnwys cyfathrebu electronig. Byddai angen i'r Pennaeth ystyried materion diogelwch wrth sefydlu'r polisi, er enghraifft ystyried unrhyw waharddiadau llys.

17. Cwestiwn: A ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu Rheol fydd yn gofyn i'r Pennaeth sefydlu cynllun ymweliadau fydd yn golygu bod gan bob person ifanc yr hawl i o leiaf un ymweliad yr wythnos?

18. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth ddyfeisio polisi ar gyfer cyfathrebu personol, fyddai'n cynnwys cyfathrebu electronig?

Defodau crefyddol

Mae'n rhaid i bobl ifanc mewn Colegau Diogel allu dilyn ac arfer eu credoau crefyddol ac rydym yn cynnig y dylid sefydlu Rheol i adlewyrchu hyn.

19. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol i sicrhau bod pobl ifanc mewn Colegau Diogel yn gallu dilyn ac arfer eu credoau crefyddol?

Rhyddhau ar gyfer Adsefydlu

Bu i'r ymateb i'r ymgynghoriad ar Drawsnewid Trefniadau Caethiwed i Bobl Ifanc nodi uchelgais i wneud defnydd mwy effeithiol o ryddhau dros dro fel ffordd o gefnogi ailsefydlu. Gallai defnyddio rhyddhau dros dro at bwrpas adsefydlu gynnwys galluogi pobl ifanc i gael mynediad i hyfforddiant neu addysg allanol, mynychu cyfweiliadau, neu ymweld â'u cymunedau gartref. **Rydym felly yn cynnig sefydlu Rheol i sicrhau y gellir rhyddhau pobl ifanc dros dro er mwyn cefnogi eu hadsefydlu.**

Yn ogystal â chefnogi ailsefydlu, gallai rhesymau eraill dros ryddhau pobl ifanc dros dro gynnwys ar gyfer rhyddhau tosturiol, derbyn triniaeth feddygol, cymryd rhan mewn achos llys, cynorthwyo'r heddlu gyda'u hymholiadau, ymgynghori ag ymgynghorwyr cyfreithiol a symud i sefydliadau eraill. **Rydym yn cynnig sefydlu Rheol sy'n nodi rhesymau, nad yw adsefydlu yn eu cynnwys, dros ryddhau pobl ifanc dros dro.**

Byddai'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid gymeradwyo unrhyw ryddhau dros dro, a byddai'n rhaid iddynt fod yn fodlon nad oes yna unrhyw risg annerbyniol y bydd y person ifanc yn troseddu nac yn torri unrhyw amodau a osodwyd cyn cymeradwyo. Byddai'n rhaid rhagdybio yn erbyn rhyddhau dros dro pan fo person ifanc eisoes wedi cael ei ryddhau dros dro ar ei ddedfryd bresennol a'i fod yn ystod y cyfnod hwnnw wedi troseddu neu wedi ceisio dianc.

20. Cwestiwn: A ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu Rheol i sicrhau y gellir rhyddhau person ifanc dros dro er mwyn cefnogi ei adsefydlu?

21. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol sy'n nodi rhesymau, nad yw adsefydlu yn eu cynnwys, dros ryddhau pobl ifanc dros dro?

Cwynion

Mae'n bwysig bod gan bobl ifanc ffordd o fynegi pryderon ynglŷn â sut maent yn cael eu trin mewn cystodaeth. **Rydym yn cynnig sefydlu Rheol sy'n nodi bod yn rhaid i Bennaeth Coleg Diogel sefydlu gweithdrefn gwyno**, a bod rhaid i'r Monitor gymeradwyo honno. Byddai'r weithdrefn yma'n ychwanegol at allu'r person ifanc i gwyno wrth y Monitor.

22. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol sy'n gofyn i'r Pennaeth sefydlu gweithdrefn gwyno? Os ydych, a ddylai'r Monitor gymeradwyo'r weithdrefn hon?

Eiriolaeth

Rydym yn dymuno parhau â'r dull a ddilyniir yn yr ystâd ieuencid bresennol pan fo pobl ifanc yn cael mynediad i bobl annibynnol sy'n gweithredu fel eiriolwyr. **Rydym yn cynnig sefydlu Rheol fydd yn caniatáu'r Ysgrifennydd Gwladol i benodi eiriolwyr i gynorthwyo pobl ifanc.**

Mae'r eiriolwyr yma'n cynnig llais annibynnol i bobl ifanc mewn cystodaeth er mwyn eu galluogi i ddatrys materion mewn perthynas â'u lles, gofal a'r driniaeth maent yn ei dderbyn yn ystod eu cyfnod mewn cystodaeth. Rydym yn rhagweld y bydd eiriolwyr yn cynorthwyo pobl ifanc i ddatrys anawsterau a all gynnwys cymorth i wneud cwyn swyddogol, ac i ddelio ag unrhyw faterion sydd heb eu datrys gyda'r sefydliad diogel neu asiantaethau allanol megis Timau Troseddwyr Ifanc, gyda chaniatâd y person ifanc.

23. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol fydd yn caniatáu'r Ysgrifennydd Gwladol i benodi eiriolwyr mewn Colegau Diogel?

Ymchwiliadau Annibynnol

Rydym yn cynnig sefydlu Rheol fydd yn caniatáu'r Ysgrifennydd Gwladol i benodi person annibynnol i gynnal ymchwiliad i faterion sy'n peri pryder arwyddocaol. Byddai'n ofynnol i'r person annibynnol adrodd yn ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol a byddai ganddo fynediad i gofnodion perthnasol wrth gynnal yr ymchwiliad hwnnw. Mae hyn yn rhoi rhagor o ddiogelwch i sicrhau bod Coleg Diogel yn cael ei redeg yn ddiogel ac yn effeithiol. Gall hyn fod yn ddefnyddiol er enghraifft pan fo angen ymchwilio i fater sydd y tu hwnt i arbenigedd y Monitor, neu pan fo'r Monitor yn rhan o'r materion yr ymchwilir iddynt.

24. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol fydd yn caniatáu'r Ysgrifennydd Gwladol i benodi person annibynnol i ymchwilio i faterion sy'n peri pryder?

Archwilio Colegau Diogel

Bydd dyletswydd ar Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (ACEM) i archwilio Colegau Diogel a bydd gan Ofsted bwerau i archwilio Colegau Diogel. **Rydym yn cynnig y bydd y Rheolau'n cynnwys darpariaeth ar gyfer archwilio Colegau Diogel, ac y byddant yn sicrhau bod unrhyw gorff fydd yn cynnal archwiliad yn gallu cael mynediad i unrhyw ran o Goleg Diogel, cynnal cyfweiliad ag unrhyw aelod o staff neu berson ifanc a gedwir yno ac archwilio unrhyw gofnodion a grëir ac a ddelir yn yr adeilad.** Byddwn yn gweithio gydag Ofsted ac ACEM wrth iddynt sefydlu fframwaith ar gyfer archwilio Colegau Diogel.

Mynediad i gynghorwyr cyfreithiol

Rydym yn cynnig sefydlu Rheol i sicrhau y bydd yn rhaid i Golegau Diogel ganiatáu i bobl ifanc gael mynediad i'w cynghorwyr cyfreithiol.

Cyfweliadau gan yr Heddlu

Rydym yn cynnig sefydlu Rheol fydd yn caniatáu i swyddog yr Heddlu gyfweld ag unrhyw berson mewn Coleg Diogel ar ôl cyflwyno gorchymyn gan neu ar ran prif swyddog yr Heddlu ar yr amod bod yr unigolyn yn cytuno i hynny.

Annog Ymddygiad Positif

Mae'r adran hon yn amlinellu swft o Reolau fydd yn helpu Penaethiaid i reoli ymddygiad pobl ifanc mewn Colegau Diogel.

Mae amgylchedd diogel a sefydlog yn hanfodol os yw Coleg Diogel am wireddu ei nod o addysgu ac adsefydlu pobl ifanc. Mae hyn yn golygu rheoli'r hyn fydd yn aml yn ymddygiad eithriadol o heriol ymysg pobl ifanc. Mae strategaeth reoli ymddygiad effeithiol yn cynnwys annog ymddygiad positif tra'n ymateb i ymddygiad amhriodol mewn ffordd deg, gymesur a chyson fydd yn ymdrin â'r rheswm sylfaenol dros y camymddwyn. Mae yna ystod o ymyriadau a pholisïau all fod yn rhan o strategaeth rheoli ymddygiad.

Gwobrau a sancsiynau

Mae gan yr ystâd ieuencid bresennol gynllun gwobrau a sancsiynau sy'n golygu bod pobl ifanc yn symud i fyny ac i lawr y lefelau gwobrau yn ôl eu hymddygiad. Mae ymddygiad da cyson ac ymgysylltu yn cael ei wobrwyo gyda mynediad i freintiau ychwanegol megis mwy o amser yn y gampfa, mwy o amser rhydd gyda phobl ifanc eraill neu ddodrefn ychwanegol yn eu hystafelloedd. Mae ymddygiad gwael yn arwain at symud i lawr y lefelau a cholli breintiau. Rydym yn credu bod y system hon yn gweithio'n dda oherwydd ei bod yn rhoi cymhelliant cyffyrddadwy i ymddwyn yn dda a chanlyniadau clir pan na fyddant yn gwneud hynny, ac rydym eisieu i'r dull gael ei ymgorffori yn y Colegau Diogel.

Rydym hefyd yn credu ei fod yn faes sy'n darparu cyfleoedd i arloesi, oherwydd bydd gweithredwyr yn gallu sefydlu cynllun Gwobrau a Sancsiynau sy'n adlewyrchu ethos y Coleg Diogel. **Felly, rydym yn cynnig sefydlu Rheol fydd yn rhoi dyletswydd ar y Pennaeth i sefydlu cynllun Gwobrau a Sancsiynau y mae'n rhaid iddi gael ei chymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol.** Mae yna rai egwyddorion allweddol y buasem yn disgwyl i bob cynllun Gwobrau a Sancsiynau eu dilyn. Sef:

- dylai pobl ifanc ddeall yn iawn beth yw canlyniadau eu gweithredoedd, ac ni ddylent gael mynediad i freintiau dim ond os ydynt yn ymgysylltu o ddifrif â'r broses o adsefydlu eu hunain;
- dylai pob cynllun gwobrau a sancsiynau gynnig cyfleoedd dilyniant a dylent nodi'n amlwg beth yw'r ymddygiad disgwylidig ar bob lefel;
- mae'n rhaid i'r Pennaeth sicrhau bod y cynllun yn ystyried anghenion pobl ifanc sy'n neilltuol fregus neu sydd mewn perygl o gyflawni hunanladdiad neu hunan-niwed.

Er y dylai lefelau gwobrau a sancsiynau adlewyrchu ymddygiad person ifanc dros gyfnod o amser, buasem hefyd eisieu i Golegau Diogel allu gweinyddu gwobrau a mân sancsiynau heb oedi fel ymateb i fân ddigwyddiadau neu benodau ymddygiad yn y tymor byr. Dylid cynnwys hyn yn y cynllun Gwobrau a Sancsiynau cyffredinol. Er mwyn sicrhau bod cynlluniau yn trin pobl ifanc yn deg, rydym yn cynnig ei bod yn ofynnol bod cynlluniau Gwobrau a Sancsiynau cael eu cymeradwyo ac, os bydd angen, eu haddasu neu eu diddymu gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol gael ei fodloni bod gan gynlluniau lefelau neu ddilyniant sydd wedi'u diffinio'n dda, a bod yr ymddygiad a ddisgwylir ar bob lefel yn cael ei egluro'n iawn i'r bobl ifanc. Bydd y gwirio

hwn hefyd yn sicrhau bod y gwobrau sy'n rhan o'r cynllun yn gymesur ag amgylchedd cystodaeth.

25. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid sefydlu rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Bennaeth sefydlu cynllun gwobrau a sancsiynau, ac y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo'r cynllun hwn?

Ein nod yw cymaint ag y bo modd bod ymddygiad yn cael ei reoli drwy'r cynllun Gwobrau a Sancsiynau. Serch hynny, ar begwn mwyaf difrifol y sancsiynau, mewn rhai lleoliadau yn yr ystâd gystodaeth ieuenctid, ychwanegir dyddiau i ddedfryd rhai pobl ifanc sydd wedi cael dedfrydau penodol gan Ddyfarnwyr Annibynnol. Gall hyn fod yn ataliad yn achos yr ymddygiad mwyaf difrifol o heriol. **Rydym yn cynnig sefydlu Rheol fydd yn sefydlu gweithdrefn ar gyfer dyfarniadau annibynnol mewn Colegau Diogel.**

Mae cyfeirio at Ddyfarnwr Annibynnol yn beth prin ar hyn o bryd yn yr ystâd gystodaeth, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol byddai hyn yn digwydd. Fel cam yn y canol rhwng rheoli ymddygiad drwy'r cynllun Gwobrau a Sancsiynau a chyfeirio at Ddyfarnwr Annibynnol, **rydym yn cynnig Rheol a fyddai'n galluogi'r Pennaeth i roi sancsiynau am droseddau difrifol mewn cystodaeth.**

Rydym yn cynnig copïo Rheol STI 55 sy'n nodi'r troseddau sy'n gallu arwain at ddyfarniad mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc fel sail ar gyfer dyfarniadau (boed hynny gan y Pennaeth neu gan Ddyfarnwr Annibynnol) mewn Colegau Diogel. Mae'r troseddau sydd wedi'u rhestru yn cynnwys ymosod, ceisio dianc a meddu ar eitemau heb awdurdod. Mae'n bwysig tanlinellu nad yw'n bolisi gennym yn yr ystâd nawr, nac mewn Colegau Diogel, y byddai dangos *unrhyw un* o'r mathau o ymddygiad a restrir yn arwain at ddyfarniad. Er enghraifft, un o'r troseddau a restrir yn Rheol Sefydliadau Troseddwyr Ifanc 55 yw, *'defnyddio geiriau neu ymddygiad sy'n bygwth, yn difriio neu'n sarhau'*. Nid yw hyn yn golygu y byddai defnyddio unrhyw eiriau difriol yn arwain at ddyfarniad. Ein polisi yw y dylai gweithredwyr reoli ymddygiad heriol drwy ymgysylltu â phobl ifanc i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi'r ymddygiad a bod y rhan fwyaf o ymddygiad yn cael ei reoli drwy Wobrau a Sancsiynau. Mae dyfarniadau yn llwybr ar gyfer rheoli'r ymddygiad mwyaf difrifol. **Rydym yn croesawu sylwadau ynghylch a yw'n briodol defnyddio'r troseddau a restrir yn Rheol Sefydliadau Troseddwyr Ifanc 55 fel sail ar gyfer troseddau o dan y Rheolau a allai fod yn destun dyfarniad.**

O ran y sancsiynau y byddai'r Pennaeth yn gallu eu rhoi wrth ddyfarnu rydym yn cynnig bod y rhain yn cael eu cyfyngu i golli 'Gwobr' sy'n rhan o'r cynllun Gwobrau a Sancsiynau a chyfyngu ar fynediad i weithgareddau (ar wahân i weithgareddau addysgol). Byddai'r sancsiynau hyn yn fwy difrifol na mân sancsiynau a allai fod yn rhan o'r cynllun Gwobrau a Sancsiynau. Ni fyddai'r sancsiynau'n cynnwys caethiwo rhywun i'w ystafell neu gyfyngu ar gyswllt allanol (gan gynnwys ymweliadau) o dan y lefel sylfaenol sy'n cael ei osod mewn rhan arall o'r Rheolau. **Rydym yn croesawu sylwadau ynghylch a yw'r rhain yn sancsiynau priodol i'r Pennaeth mewn proses ddyfarnu i reoli ymddygiad difrifol.**

Rydym hefyd yn cynnig Rheol sy'n adlewyrchu'r amserlenni cyfredol mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ar gyfer rheoli dyfarniadau er mwyn i droseddau sy'n gallu arwain at ddyfarniad gael eu gosod cyn gynted ag sy'n bosibl, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriol, cyn pen 48 awr o'r drosedd, a bod y gwrandawriad yn cael ei gynnal, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, ar y diwrnod canlynol (ar wahân i ddydd Sul neu ŵyl y banc).

Er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu trin yn deg o dan unrhyw broses ddyfarniadau rydym yn **cynnig sefydlu Rheol i sicrhau bod pob person ifanc a gyhuddir o drosedd o dan y Rheolau yn cael cyfle priodol i gyflwyno ei achos**. Byddai defnyddio dyfarniadau yn rhan o broses monitro Colegau Diogel. Fel sy'n cael ei amlinellu mewn rhannau eraill o'r ddogfen ymgynghori hon mae amrywiaeth o ffyrdd i bobl ifanc allu mynegi pryderon am sut maent yn cael eu trin mewn cystodaeth, naill ai drwy drefn achwyno neu drwy gynnwys eiriolwyr annibynnol.

26. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol sy'n sefydlu gweithdrefn ar gyfer dyfarnwyr annibynnol mewn Colegau Diogel?

27. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid cael Rheol a fyddai'n galluogi'r Pennaeth i roi sancsiynau am droseddau difrifol mewn cystodaeth?

28. Cwestiwn: A ydych yn cytuno ei bod hi'n briodol defnyddio'r troseddau a restrir yn Rheol Sefydliadau Troseddwyr Ifanc 55 fel sail ar gyfer troseddau o dan y Rheolau a allai fod yn destun dyfarniad?

29. Cwestiwn: A ydych yn cytuno â'r sancsiynau arfaethedig sydd ar gael i'r Pennaeth mewn proses ddyfarnu ar gyfer rheoli ymddygiad difrifol?

30. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid cael Rheol sy'n dilyn yr amserlenni sy'n cael eu dilyn mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ar gyfer rheoli dyfarniadau?

31. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid cael Rheol bod unrhyw berson ifanc sy'n cael ei gyhuddo o drosedd o dan y Rheolau yn cael cyfle iawn i gyflwyno ei achos?

Gwahanu

Mewn rhai achosion, pan fo ymdrechion i dawelu'r sefyllfa drwy gyfathrebu llafar wedi methu, efallai bod angen i staff dynnu'r person ifanc o'r gweithgaredd neu'r ardal a'i ddychwelyd i'w ystafell. Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng achosion pan fo person ifanc yn cael ei dynnu o weithgaredd ac yn parhau i gael ei oruchwyllo a'r achosion hynny pan fo person ifanc yn cael ei wahanu oddi wrth y gyfundrefn a'i gloi yn ei ystafell. Mae'r senario gyntaf yn un y buasem yn disgwyl i weithredwyr ei rheoli fel rhan o'u cyfundrefn bob dydd. Er enghraifft, efallai y bydd gweithredwr yn ystyried y byddai er lles i'r person ifanc wneud gweithgaredd o dan oruchwyliaeth ar wahân i gyfoedion am gyfnod. Mae'r adran hon ar wahanu yn ymdrin â'r ail fath o achosion pan fo person ifanc yn cael ei dynnu o'r brif gyfundrefn a'i gloi yn ei ystafell. Rydym yn cynnig y dylid sefydlu Rheol ynghylch y prif egwyddorion a'r dulliau diogelu o ran defnyddio gwahanu.

Rydym yn credu y dylid penderfynu gwahanu plentyn neu berson ifanc oddi wrth ei gyfoedion o ganlyniad i ymddygiad problemus dim ond ar sail asesiad sy'n dangos mai gwahanu yw'r ffordd orau o fodloni anghenion y person ifanc hwnnw neu mai honno yw'r ffordd orau o reoli'r risgiau i eraill. Mae'n rhaid i uwch aelod o'r staff wneud y penderfyniad hwn.

Ni ddylid defnyddio gwahanu fel cosb a dylai'r defnydd ohono ystyried anghenion y person ifanc a bod yn gymesur â'r risgiau cysylltiedig. Mae'n rhaid sicrhau bod y person ifanc yn ymwybodol bob amser o'r rhesymau dros wahanu a dylid gwneud pob ymdrech i gynorthwyo'r person ifanc i ddelio â'r ymddygiad a arweiniodd at y gwahanu er mwyn

hwyluso ei integreiddio'n ôl i'r gyfundrefn arferol cyn gynted â phosibl. Mae'n rhaid monitro'n person ifanc yn rheolaidd yn ystod y cyfnodau o wahanu.

Mae gan sectorau cystodaeth ieuencid presennol wahanol ddulliau o reoleiddio'r defnydd o wahanu ac yn arbennig o ran cymhwyso terfynau amser. Nid yw fframwaith reoleiddio Cartrefi Plant Diogel (CPD) yn gosod terfyn amser ar gyfer defnyddio gwahanu ond mae'n pwysleisio bod yn rhaid cadw golwg ar bobl ifanc yn rheolaidd. Mae Rheolau Canolfannau Hyfforddi Diogel yn nodi na ellir gadael person ifanc ar ei ben ei hun am fwy na 3 awr yn ystod y dydd a bod yn rhaid cadw golwg arno bob 15 munud. Gall terfyn amser ddarparu sicrwydd na fydd gwahanu'n cael ei ddefnyddio'n ormodol, ond gall hefyd fod yn fymrwyl a gall fethu â chaniatáu asesu sefyllfaoedd fesul achos. Rydym yn croesawu safbwyntiau ar addasrwydd defnyddio terfyn amser ar gyfer gwahanu.

Dewis arall yn hytrach na therfyn amser yw sicrhau bod yna fonitro llym ac adrodd am y cyfnodau y caiff pobl ifanc eu gwahanu. Y Monitor fyddai'n gyfrifol am fonitro'r cyfnodau y caiff pobl ifanc eu gwahanu, a byddai'n ddyletswydd arno i adrodd am hyn i'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn sicrhau bod gwahanu yn cael ei ddefnyddio yn gyson, yn gymesur ac yn deg. Ein hamcan cyffredinol yw bod gweithredwyr yn canfod a gweithredu atebion fydd yn golygu na fydd angen gwahanu.

32. Rydym yn croesawu safbwyntiau ar ba drefniadau diogelu ddylid eu cynnwys yn y Rheolau i sicrhau bod gwahanu yn cael ei ddefnyddio'n briodol?

Defnyddio Grym

Mae'r adran hon o'r ddogfen ymgynghori yn ymdrin â'r dull y dylid ei ddefnyddio mewn perthynas â defnyddio grym (yn cynnwys ataliaeth gorfforol), a cheir Rheolau dangosol ynghylch defnyddio grym.

Mae'n ddealladwy bod y dull o ddefnyddio grym gyda phobl ifanc yn arwain at fwy o graffu nag yn achos unrhyw agwedd arall o'r gyfundrefn cystodaeth ieuencid. Mae unrhyw benderfyniad i ddefnyddio grym yn fater difrifol, sy'n golygu uwchlaw popeth na ddylid ei ddefnyddio dim ond pan fo popeth arall wedi methu, gan barchu urddas y person ifanc, ac ni ddylid ei ddefnyddio byth fel cosb.

Fodd bynnag, mae profiad o reoli amgylcheddau gwarchodol yn dangos yn anochel y bydd yna adegau pryd y bydd ymddygiad heriol neu broblemus pobl ifanc yn gwaethygu cymaint nes bod ymyrraeth gorfforol yn angenrheidiol - nid fel cosb, ond er mwyn sicrhau bod y person hwnnw ac eraill yn ddiogel. Er bod hynny'n rhan o realiti rheoli amgylchedd gwarchodol, rydym yn ymrwymedig i sicrhau, drwy sefydlu polisïau eglur, monitro effeithiol a hyfforddiant o safon uchel, y bydd grym ond yn cael ei ddefnyddio pan fo popeth arall wedi methu a'i fod yn cael ei reoli yn y ffordd fwyaf diogel posibl. Ym mhob achos pan fo'n bosibl dylid defnyddio grym ar ffurf techneg ataliaeth corfforol cymeradwy. Wrth benderfynu defnyddio grym ac i ba raddau y mae angen defnyddio grym, mae lles y person ifanc dan sylw yn ystyriaeth sylfaenol.

Mae gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud mewn perthynas â defnyddio ataliaeth yn ystod y blynyddoedd diweddar. Yr enghraifft fwyaf amlwg oedd datblygu dull atal newydd, 'Lleihau a Rheoli Ataliaeth Gorfforol' (LIRhAC), ar gyfer ei defnyddio mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc o dan 18 oed. Aseswyd LIRhAC yn annibynnol gan y Bwrdd Cynghori ar Ataliaeth, sef panel o arbenigwyr sy'n cynnwys ystod o gefndiroedd proffesiynol yn cynnwys paediatreg, seiciatreg a rheoli

troseddwyr. Sefydlodd y Bwrdd Cynghori ar Ataliaeth set o egwyddorion sy'n llywodraethu'r defnydd a wneir o ataliaeth. Mae'r egwyddorion hyn, sy'n cynnwys pwysleisio'r angen am brosesau atal sy'n canolbwyntio ar y plentyn, a llywodraethu a hyfforddiant o safon uchel, wedi cael eu mabwysiadu gan y Llywodraeth a byddant yn cael eu cymhwyso i Golegau Diogel.

Rydym yn cydnabod bod hyfforddiant o safon uchel yn hanfodol ar gyfer ataliaeth fwy diogel. Dyma pam, o dan LIRhAC, mae'n ofynnol i staff fynychu dwywaith gymaint o gyrsiau diweddar bob blwyddyn ag yr arferid cyn LIRhAC, a pham bod staff yn destun asesu cynhwysfawr ar gyrsiau hyfforddi, ble mae'n rhaid iddynt allu dangos y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol mewn perthynas â'r canlynol: rheoli ymddygiad, y gyfraith, cyngor meddygol a thechnegau corfforol. Fel mae ei deitl yn awgrymu, mae LIRhAC yn ymwneud ag osgoi'r angen i ddefnyddio ataliaeth gorfforol cymaint â phosibl. Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn canolbwyntio ar sgiliau tawelu, yn ogystal â chymhwyso technegau ataliaeth gorfforol. Bydd LIRhAC yn cael ei ddefnyddio mewn Colegau Diogel. Gellir cael mwy o wybodaeth am LIRhAC yma <http://www.justice.gov.uk/youth-justice/custody/behaviour-management#restraint>

Yr amgylchiadau sy'n golygu y caiff grym ei awdurdodi

Wrth gwrs, fe fydd yna gyswllt corfforol rhwng swyddogion gwarchodol a phobl ifanc. Nid ydym yn ystyried bod cyswllt corfforol bob dydd, nad yw'n cynnwys unrhyw ymdrech i reoli neu atal person ifanc, megis tap ar yr ysgwydd, yn gyfystyr â defnyddio grym. Felly, mae'r math hwn o gyswllt y tu hwnt i gwmpas y polisi a'r Rheolau dangosol yr ydym yn eu nodi yn y ddogfen hon.

Mae'r cynigion a nodir isod yn ymdrin ag unrhyw gyswllt corfforol sy'n fwy na mân gyswllt, ac maent yn angenrheidiol i reoli neu atal person ifanc mewn rhyw ffordd. Dyma'r defnydd a wneir o'r gair 'grym' at bwrpas y ddogfen hon.

Rydym yn cynnig y dylai'r Rheolau nodi'r amgylchiadau fyddai'n golygu awdurdodi defnyddio grym. **Rydym yn cynnig bod defnyddio grym yn cael ei awdurdodi o dan yr amgylchiadau yma: er mwyn atal anaf i'r person ifanc ac eraill, er mwyn atal neb rhag dianc o gystodaeth ac er mwyn atal difrod i eiddo.**

Rydym hefyd yn cynnig bod pedwerydd amgylchiad - sy'n ymwneud â chadw trefn a disgyblaeth dda - lle gellir defnyddio grym ond - dim ond drwy ddilyn ac yn unol â LIRhAC, ac ar ffurf technegau ataliaeth sydd wedi cael eu cymeradwyo'n benodol ar gyfer eu defnyddio yn yr amgylchiadau hynny. Rydym yn disgrifio hyn yn fanylach isod.

I'r graddau sy'n ymarferol rhesymol (ac ym mhob achos lle defnyddir grym i gadw trefn a disgyblaeth dda), dylid defnyddio unrhyw rym fod drwy ddefnyddio techneg ataliaeth gymeradwy, o dan LIRhAC. Dylid gwneud hyn oherwydd bydd staff wedi cael hyfforddiant manwl a thrwyadl ynghylch sut i ddefnyddio ataliaeth gorfforol ac mae'r technegau a ddefnyddir wedi bod yn destun asesiad risg er mwyn lleihau'r niwed i bobl ifanc a staff.

Fodd bynnag, gall sefyllfaoedd godi pan nad yw'n bosibl cymhwyso techneg ataliaeth gymeradwy oherwydd bod yr angen i ddefnyddio grym er mwyn atal anaf i'r person ifanc ac eraill, i'w atal rhag dianc o gystodaeth neu i atal difrod i eiddo, yn fater brys ac nad yw'n caniatáu i'r sefyllfa gael ei rheoli drwy ddefnyddio techneg ataliaeth gymeradwy. Er enghraifft, efallai y bydd angen defnyddio grym i ddal rhywun yn ôl rhag ymosod yn sydyn ar berson ifanc arall neu aelod o'r staff. Efallai y bydd angen i'r staff ddefnyddio grym hefyd er mwyn amddiffyn eu hunain.

33. Cwestiwn: A ydych yn cytuno â'n cynigion ynghylch pryd y gellir awdurdodi defnyddio grym?

Egwyddorion sy'n gymwys i ddefnyddio grym o unrhyw fath

Rydym yn cynnig bod yr egwyddorion canlynol yn rhan ganolog o ddefnyddio unrhyw fath o rym mewn Colegau Diogel ac maent yn cael eu hadlewyrchu yn y rheolau dangosol. Byddai'r egwyddorion yma'n cael eu cymhwyso i ddefnyddio unrhyw fath o rym, naill ai ar ffurf techneg ataliaeth gymeradwy neu fel arall.

- Gwaherddir defnyddio grym at bwrpas cosbi
- Gwaherddir defnyddio grym i achosi poen, oni bai bod amddiffyn person ifanc neu eraill rhag risg uniongyrchol neu niwed corfforol difrifol yn gwbl angenrheidiol (ac mae wedi'i wahardd ym mhob achos lle caiff grym ei ddefnyddio i gynnal trefn a disgyblaeth dda).
- Ni cheir defnyddio grym oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol ac i'r graddau sy'n angenrheidiol, a bod hynny yn ymateb sy'n gymesur â'r sefyllfa.
- Dim ond y grym angenrheidiol lleiaf am yr amser byrraf a ganiateir.
- Pan ddefnyddir unrhyw rym, mae lles y person a defnyddir y grym yn ei erbyn yn ystyriaeth sylfaenol.
- Mae'n rhaid i unrhyw ddefnydd a wneir o rym, cyn belled â bod hynny'n rhesymol ymarferol, barchu urddas y person ifanc a dylai amddiffyn ei uniondeb corfforol. Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu bod yn rhaid i staff ystyried, mewn unrhyw sefyllfa ble mae angen defnyddio grym, pa gamau a ellir eu dilyn i leihau'r effaith niweidiol ar urddas ac uniondeb corfforol y person ifanc o dan sylw, gan gydnabod mewn achosion brys, fel y nodir uchod, na fydd camau ymarferol bob amser ar gael nac yn briodol. Fel enghraifft, gallai camau ymarferol gynnwys symud eraill o ardal ble defnyddir grym mewn digwyddiad.
- Cymaint ag sy'n ymarferol rhesymol rhaid i unrhyw rym a ddefnyddir fod yn unol â'r dulliau sydd wedi cael eu cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol (hy LIRhAC) a gan staff sydd wedi dilyn cwrs hyfforddi sydd wedi cael ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol (hy LIRhAC), ac ym mhob achos pan fydd grym yn cael ei ddefnyddio i gadw trefn a disgyblaeth dda.
- Ni chaniateir i unrhyw swyddog ymddwyn mewn ffordd fyddai'n pryfocio person ifanc yn fwriadol
- Rhaid cofnodi manylion pob digwyddiad pan ddefnyddir grym yn erbyn person ifanc.

34. Cwestiwn: A ydych yn cytuno â'r egwyddorion fyddai'n cael eu cymhwyso i ddefnyddio grym o unrhyw fath? A oes yna unrhyw egwyddorion eraill i'w hystyried?

Egwyddorion sy'n gymwys i ddefnyddio ataliaeth o unrhyw fath

Uchod rydym yn nodi'r egwyddorion sy'n berthnasol i ddefnyddio grym o unrhyw fath. Hefyd rydym yn cynnig y dylai'r egwyddorion canlynol fod yn berthnasol i ddefnyddio ataliaeth. Mae'r holl egwyddorion yn y pwyntiau bwled isod yn cael eu gweithredu fel rhan o LIRhAC. Fel y nodir uchod, cymaint ag sy'n ymarferol rhesymol (ac ym mhob achos lle defnyddir grym i gadw trefn a disgyblaeth dda), ni fydd unrhyw berson ifanc yn cael ei atal

yn gorfforol ac eithrio yn unol â'r dulliau sydd wedi cael eu cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol (hy LIRhAC) a gan staff sydd wedi dilyn cwrs hyfforddi sydd wedi cael ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol (hy LIRhAC).

- Gwaherddir defnyddio techneg ataliaeth gorfforol i achosi poen, oni bai bod amddiffyn person ifanc neu eraill rhag risg uniongyrchol neu niwed corfforol difrifol yn gwbl angenrheidiol, ond ni cheir defnyddio technegau o'r fath i gadw trefn a disgyblaeth dda (fel sy'n cael ei nodi isod).
- Rhaid defnyddio ataliaeth gorfforol mewn ffordd sy'n ystyried nodweddion ffisiolegol penodol y person ifanc. Er enghraifft, bydd y staff yn ystyried maint corfforol a chyflyrau meddygol perthnasol, megis asthma.
- Pan fo'n bosibl (ac ym mhob achos pan fydd grym yn cael ei ddefnyddio i gadw trefn a disgyblaeth dda), rhaid ymgynghori â staff gofal iechyd cyn atal. Mae'n rhaid gwneud hyn oherwydd ein bod yn ymwybodol bod unrhyw ddefnydd a wneir o ataliaeth yn golygu risgiau meddygol, a bwriad ymgynghori â staff gofal iechyd yw lliniaru'r risgiau o niwed.
- Ar ôl atal person ifanc, mae'n rhaid hysbysu staff gofal cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol bod y person ifanc wedi cael ei atal yn gorfforol
- Cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl atal person ifanc mae'n rhaid rhoi cyfle iddo drafod yr ataliaeth gorfforol ac unrhyw amgylchiadau sy'n gysylltiedig â hynny gydag un neu ragor o aelodau'r staff. Dylid rhoi'r dewis i'r person ifanc gael eiriolwr annibynnol yn bresennol.
- Hefyd, mae'n rhaid i'r staff oedd yn rhan o'r digwyddiad gael cyfle i adrodd yn ôl i aelod o staff sydd â'r arbenigedd LIRhAC priodol.
- Rhaid cofnodi manylion pob digwyddiad lle defnyddir grym yn erbyn person ifanc, ac mae LIRhAC yn mynnu bod cofnod o'r fath yn cael ei gwblhau gan staff cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, ac yn cynnwys datganiadau gan y staff ac unrhyw gofnod CCTV sydd ar gael.
- Mae'n rhaid i aelod priodol o staff ac, yn achos Colegau Diogel a gontractir allan, Monitor y Coleg Diogel adolygu digwyddiadau o ataliaeth.
- Mae'n rhaid i Dîm Hyfforddi Cenedlaethol LIRhAC a chynghorwr annibynnol ag arbenigedd perthnasol adolygu unrhyw ataliaeth sy'n arwain at anaf difrifol neu 'arwydd o rybudd'. Enghraifft o 'arwydd o rybudd' yn y broses LIRhAC bresennol yw pobl ifanc yn dweud eu bod yn cael trafferth anadlu.

Nid ydym yn cynnig y bydd yr holl egwyddorion uchod yn cael eu nodi yn y Rheolau: bydd hi'n fwy priodol cynnwys rhai o'r egwyddorion mewn dogfennau LIRhAC. Fel y nodir yn y Rheolau dangosol, rhaid defnyddio LIRhAC bob tro cymaint ag sy'n rhesymol ymarferol, ac ym mhob achos pan ddefnyddir y grym i gadw trefn a disgyblaeth dda. Mae hyn yn golygu, gan mai'r bwriad yw cynnwys yr holl egwyddorion hyn yn LIRhAC y byddant yn cael eu gweithredu mewn Colegau Diogel fel rhan o'r dulliau ataliaeth sydd wedi cael eu cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

35. Cwestiwn: A ydych yn cytuno â'n hegwyddorion y dylid eu cymhwyso i ddefnyddio ataliaeth gorfforol o unrhyw fath?

Amgylchiadau sy'n golygu bod ataliaeth gorfforol ar gyfer cynnal amgylchedd diogel a sefydlog yn cael ei awdurdodi hefyd

Fel y nodir uchod, rydym yn cynnig y bydd defnyddio grym yn cael ei awdurdodi o dan y Rheolau Colegau Diogel i atal anafiadau i'r person ifanc neu i bobl eraill, i atal dianc o gystodaeth ac i atal difrod i eiddo, a chymaint ag sy'n rhesymol ymarferol, dylai defnyddio grym fod yn unol â LIRhAC. Yn ychwanegol at y tri math hyn o amgylchiadau, rydym hefyd yn cynnig awdurdodi defnyddio grym o dan bedwerydd math o amgylchiadau, sy'n deillio o swyddogaeth swyddog gwarchodol y Coleg Diogel, sef sicrhau trefn a disgyblaeth dda gan y bobl sy'n cael eu cadw.

Mae 'trefn a disgyblaeth dda' yn derm a ddefnyddir mewn deddfwriaeth arall, yn cynnwys deddfwriaeth yn ymwneud ag ysgolion. Dyma pam fod y Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd yn cynnig y dylai sicrhau trefn a disgyblaeth dda gan y bobl a gedwir mewn Coleg Diogel fod yn un o swyddogaethau creiddiol swyddog gwarchodaeth Coleg Diogel.

Yng nghyd-destun Colegau Diogel, mae trefn a disgyblaeth dda yn disgrifio'r dull o gynnal amgylchedd diogel a sefydlog wrth redeg sefydliad diogel. Mae yna bwysigrwydd amlwg i gynnal trefn a disgyblaeth dda mewn perthynas â diogelwch, ond mae iddo berthnasedd ychwanegol wrth ystyried darpariaeth addysgol. Yn syml, mae trefn dda yn galluogi i sefydliadau weithredu er lles yr holl bobl ifanc.

Ond rydym yn cydnabod y gallai cyfeirio at 'ddisgyblaeth' yn y cyd-destun hwn fod yn ddryslyd, oherwydd gallai awgrymu y gellid defnyddio grym fel ffordd o gosbi. Rydym yn pwysleisio y gwaherddir defnyddio grym mewn unrhyw ffordd at bwrpas disgyblu a chosbi, fel y nodir uchod.

Rydym yn cynnig y bydd y Rheolau'n egluro beth rydym yn ei olygu wrth drefn a disgyblaeth dda. Ein polisi arfaethedig yw **bydd defnyddio grym i gadw trefn a disgyblaeth dda dim ond yn cael ei awdurdodi pan fydd person ifanc yn peri risg i gynnal amgylchedd diogel a sefydlog a phan fydd risg hefyd i ddiogelwch neu les y person ifanc y mae'r ataliaeth yn cael ei defnyddio yn ei erbyn, neu ddiogelwch neu les person ifanc arall.**

Yn y sefyllfa hon, bydd grym dim ond yn cael ei ddefnyddio drwy arfer LIRhAC ac yn unol â hynny, a drwy ddefnyddio technegau ataliaeth sydd wedi cael eu cymeradwyo'n benodol i'w defnyddio yn y sefyllfa honno. Yn y sefyllfa hon, fel yn achos unrhyw ddefnydd a wneir o rym, gellir ond defnyddio grym pan fo hynny'n gwbl angenrheidiol ac i'r graddau sy'n angenrheidiol, a bod hynny yn ymateb sy'n gymesur â'r sefyllfa.

Mewn sefyllfaoedd prin, a dim ond pan fo popeth arall wedi methu, rydym yn credu bod defnyddio ataliaeth gymeradwy - dim ond cyn lleied ag sydd ei angen am gyn lleied o amser ag sydd ei angen a bod hynny'n ddarostyngedig i amodau a dulliau diogelu llym a ddyluniwyd i sicrhau parch i urddas ac uniondeb corfforol y person ifanc - efallai'n angenrheidiol. Yn y cyd-destun hwn, mae'r risg i "ddiogelwch neu les" yn ehangach na risg o anaf uniongyrchol y gellir ei adnabod. Byddai angen i'r effaith ar les fod yn fwy nag effaith bychan neu ddibwys.

Yng ngweddill y ddogfen hon rydym yn disgrifio'r ffordd yr ydym yn cynnig awdurdodi ataliaeth yn Rheolau'r Colegau Diogel o dan y pŵer i ddefnyddio grym at bwrpas TAD, sef 'cynnal amgylchedd diogel a sefydlog'.

Bydd penderfyniadau ynghylch a oes angen defnyddio ataliaeth ac a fyddai hynny'n gymesur yn dibynnu ar nifer o ffactorau fydd yn benodol i'r sefyllfa honno ar yr adeg

honno. Mae/bydd staff yn cael eu hyfforddi i gymhwyso ataliaeth dim ond pan fo popeth arall wedi methu, felly ni fyddai ataliaeth o reidrwydd yn cael ei ddefnyddio bob tro y bydd sefyllfaoedd fel y nodir isod yn codi. Fodd bynnag, gan fanteisio ar brofiad gweithredol, nodir dwy senario isod sy'n digwydd yn aml:

Senario 1

Mae person ifanc sy'n mynychu sesiwn ymweld yn sylwi ar ymwelydd y mae'n cael problemau gydag ef/hi yn y byd y tu allan. Mae'n dechrau bygwth yr ymwelydd yn eiriol. Mae'r person ifanc yn defnyddio iaith ddifriol ac mae'n gwrthod symud o'r ystafell ymweld. Nawr mae hyn yn amharu ar ymweliadau pobl ifanc ac ymwelwyr (yn cynnwys rhai aelodau teulu ifanc). Nid oes unman arall yn y sefydliad diogel ble gellir cynnal eu hymweliadau a amserlenwyd neu ble gall ymwelwyr ddisgwyl. Mae'r ymwelydd yr anelir yr iaith ddifriol ato yn dechrau anesmwytho, a'i deulu ifanc a'r person ifanc y mae'n ymweld ag ef. Mae'r person ifanc sy'n bod yn ddifriol ac yn gwrthod symud yn cael ei fygwth hefyd â dial gan bobl ifanc eraill yr effeithir ar eu hymweliadau. Mae yna berygl i'r sefyllfa waethygu.

Yn yr enghraifft hon, byddai staff ar y cychwyn yn siarad â'r person ifanc sy'n ymddwyn yn gamdriniol ac yn ystyried pob ffordd posibl o dawelu'r sefyllfa. Ond os na fydd dim arall yn gweithio a bod hynny'n gwbl angenrheidiol, gallai hon fod yn sefyllfa pryd y gellid awdurdodi defnyddio ataliaeth er mwyn sicrhau amgylchedd diogel a sefydlog, cyn belled â bod hynny'n cael ei wneud â pharch dyledus i urddas ac uniondeb corfforol y person. Byddai hyn yn seiliedig ar y ffaith, drwy amharu ar y sesiwn ymweld yn y modd hwn, bod ymddygiad y person ifanc yn achosi risg i ddiogelwch a sefydlogrwydd y sefydliad diogel i'r graddau bod diogelwch unigolion ac eraill mewn perygl a bod defnyddio ataliaeth yn angenrheidiol a chymesur.

Senario 2

Mae person ifanc yn ymddwyn yn fgythyol a difriol tuag at berson ifanc arall, ac o ganlyniad i hyn a materion eraill yn ymwneud â bod mewn cystodaeth, mae'n cael ei ystyried ar hyn o bryd fel rhywun sydd â risg uchel oherwydd hunan-niwed yn y gorffennol. Mae staff yn ymwybodol o hyn ac yn rheoli'r sefyllfa yn ystod y dydd. Fodd bynnag, mae'r person ifanc yn cael ei fygwth yn ystod y nos gan berson ymosodol sydd yn yr ystafell drws nesaf iddo. Mae hyn yn achosi gofid cynyddol i'r person ifanc.

Mae staff yn mynd i symud y person ifanc bygythiol i ystafell wahanol er mwyn ceisio lleihau'r trallod sy'n effeithio ar y person ifanc sydd â risg o hunan-niwed, ond mae'r person ymosodol yn gwrthod symud. Nid yw'r staff eisiau symud y person ifanc arall oherwydd nid yw wedi gwneud dim o'i le, ac mae ganddo rwydwaith gefnogi da yn yr uned. Mae eraill yn yr uned yn dechrau anesmwytho oherwydd bod y digwyddiad yn parhau.

Yn yr enghraifft hon, bydd y staff yn ceisio cyfryngu â'r bobl ifanc dan sylw a dylid gweithredu camau gwrth fwlio yn erbyn y person ymosodol. Fodd bynnag, os bydd y person ifanc yn gwrthod gwella ei ymddygiad ac yn gwrthod symud i ystafell arall, bydd angen i'r staff ei symud er mwyn amddiffyn lles y person ifanc sy'n gorfod dioddef y gamdriniaeth ac i sicrhau amgylchedd diogel a sefydlog i'r person ifanc ac eraill yn yr uned. Pan fo popeth arall wedi methu bydd y staff yn defnyddio ataliaeth i symud y person ifanc ymosodol i lety arall.

Felly, rydym yn ystyried mai un rheswm dros ddefnyddio ataliaeth gorfforol, ar ffurf ataliaeth gorfforol gymeradwy, yw er mwyn cynnal amgylchedd diogel a sefydlog i bobl ifanc ble mae diogelwch a lles pobl ifanc yn cael ei amddiffyn. Rydym yn cynnig sefydlu Rheolau sy'n adlewyrchu'r ymagwedd hon. Isod rydym yn nodi ein cynigion ar gyfer dulliau diogelu ychwanegol sydd eu hangen cyn, yn ystod ac ar ôl defnyddio ataliaeth mewn unrhyw ffordd o dan yr amgylchiadau yma.

36. Cwestiwn: A ydych yn cytuno bod ein hesboniad o beth yw ystyr trefn a disgyblaeth dda - hy cynna amgylchedd diogel a sefydlog - yng nghyd-destun grym yn adlewyrchu'n gywir yr amgylchiadau sy'n golygu bod angen defnyddio ataliaeth?

Sut fyddai defnyddio ataliaeth ar gyfer cynnal amgylchedd diogel a sefydlog yn cael ei gymhwyso'n ymarferol?

Yn gyffredinol gellid cymhwyso'r holl egwyddorion ynghylch defnyddio grym ac ataliaeth ar gyfer defnyddio ataliaeth i gynnal amgylchedd diogel a sefydlog. **Ar ben hynny, ni cheir defnyddio technegau ataliaeth gorfforol sy'n achosi poen at bwrpas cynnal amgylchedd diogel a sefydlog.**

Mae defnyddio ataliaeth mewn unrhyw ffordd at bwrpas cynnal amgylchedd diogel a sefydlog yn fater eithriadol o sensitif, a bydd yn rhaid i'r staff gydbwyso nifer o wahanol ffactorau wrth benderfynu beth i'w wneud. Er enghraifft, bydd angen i'r staff ystyried effaith gorfforol ac emosiynol posibl y gall ataliaeth ei achosi i'r person fydd yn derbyn yr ataliaeth, effeithiau corfforol ac emosiynol ymddygiad yr unigolyn hwnnw ar bobl ifanc eraill, a phenderfynu a fyddai defnyddio ataliaeth yn arwain at waethygu'r sefyllfa. Felly rydym yn ystyried bod angen proses fwy trylwyr i'r staff ei dilyn wrth asesu a oes angen defnyddio ataliaeth o dan yr amgylchiadau hyn o'i gymharu â rhesymau eraill dros ddefnyddio ataliaeth.

Enghreifftiau o ataliaeth o dan yr amgylchiadau hyn fyddai'r hyn a elwir yn ataliaeth wedi'i gynllunio. Oherwydd nad oes yna risg uniongyrchol o niwed corfforol (o'i gymharu, er enghraifft, ag atal ymosodiad) gall staff gasglu'r adnoddau at ei gilydd i sicrhau'r ataliaeth mwyaf diogel posibl. Byddai hyn yn sicrhau yr ymgynghorir â staff gofal iechyd cyn i'r ataliaeth ddigwydd a bod modd iddynt fod yn bresennol. Byddai'n rhaid ymgynghori ag uwch aelodau staff a chael eu caniatâd cyn parhau ag unrhyw ymyriad.

Hefyd, oherwydd na fydd hwn yn achos fydd yn golygu risg uniongyrchol o niwed corfforol difrifol i'r unigolyn nac eraill, ni fyddai'r holl dechnegau ataliaeth gorfforol awdurdodedig ar gael i'r staff o dan yr amgylchiadau hyn. Ni cheir defnyddio technegau sy'n achosi poen.

Mae'n rhaid i'r staff ymateb gan ddefnyddio'r technegau ataliaeth gorfforol lefel isaf yn seiliedig ar asesiad risg o'r sefyllfa. Yn y cyd-destun hwn, bydd yn rhaid ystyried ffyrdd o leihau'r effaith niweidiol ar urddas ac uniondeb corfforol y person ifanc drwy, er enghraifft, symud eraill o'r lleoliad neu ddefnyddio sgriniau i guddio'r ataliaeth. Oherwydd y bydd yr ataliaeth wedi'i gynllunio, mae'n rhaid i staff ystyried ystod o ffyrdd o amddiffyn urddas ac uniondeb corfforol y person ifanc. Dylai i unrhyw benderfyniad i ddefnyddio ataliaeth er mwyn sefydlu amgylchedd diogel a sefydlog fod yn destun lefel uchel iawn o graffu. Felly, rydym yn cynnig sefydlu mwy o ddulliau diogelu er mwyn monitro defnyddio ataliaeth o dan yr amgylchiadau hyn.

Rydym yn cynnig cymhwyso'r egwyddorion a'r gweithdrefnau canlynol i ddefnyddio ataliaeth mewn unrhyw ffordd i gynnal amgylchedd diogel a sefydlog. Nid ydym yn ystyried bod pob agwedd o'r broses ataliaeth ar gyfer cynnal amgylchedd diogel a sefydlog yn addas i'w cynnwys yn y Rheolau Colegau Diogel. Cynigir cynnwys peth o'r polisi a gynigir isod (megis y broses benderfynu neu'r camau ymarferol allai gyfrannu at sicrhau parch at urddas ac uniondeb y person ifanc) yn y dogfennau LIRhAC. Rydym wedi darparu mwy o fanylion am y prosesau yr ydym yn ystyried y dylid eu cymhwyso i ataliaeth er mwyn cynnal amgylchedd diogel a sefydlog oherwydd ein bod yn cydnabod bod hwn yn fater sensitif.

Cyn penderfynu defnyddio ataliaeth i gynnal amgylchedd diogel a sefydlog, mae'n rhaid i'r staff

- Ystyried a ellir gadael y person ifanc yn ddiogel ble mae a'i fonitro'n briodol.
- Ystyried a oes gan aelod arall o'r staff well perthynas â'r person ifanc a allai fod mewn gwell sefyllfa i reoli'r digwyddiad.
- Galw am gymorth, hysbysu uwch aelod o'r staff a pharhau i dawelu'r sefyllfa yn eiriol (eglwro'r goblygiadau o ran gwobrau a sancsiynau). Anwybyddu difrïo llafar gan berson ifanc y gellir delio ag ef eto drwy brosesau rheoli ymddygiad eraill.
- Ystyried effaith gorfforol ac emosiynol posibl yr ataliaeth ar y person ifanc fydd yn derbyn yr ataliaeth:
- Galw am staff gofal iechyd ac ystyried a oes yna ffactorau risg meddygol ychwanegol
- Ystyried effaith ymddygiad y person ifanc ar bobl ifanc eraill ac a yw hynny'n achosi risg amlwg i gynnal amgylchedd diogel a sefydlog ac a oes yna risgiau i ddiogelwch neu les pobl ifanc (er enghraifft bod yna amharu sylweddol ar gyfundrefn pobl ifanc cyfagos, bod hynny'n peri gofid iddynt, neu eu bod yn cael eu cymell i ymuno gyda neu yn erbyn y person sy'n ymddwyn yn heriol)
- Ystyried a ellir symud eraill o'r lleoliad.
- Byddai defnyddio ataliaeth ond yn digwydd pan fo'r staff yn fodlon eu bod wedi casglu'r adnoddau at ei gilydd i sicrhau bod ataliaeth yn cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf diogel, i sicrhau bod urddas ac uniondeb corfforol y person ifanc yn cael eu diogelu yn y ffordd orau bosibl a bod asesiad risg llawn wedi'i wneud gan ystyried goblygiadau gweithredu gydag ataliaeth neu beidio. Mae'r adnoddau yn cynnwys presenoldeb staff gofal iechyd.
- Byddai'n rhaid i uwch aelod o'r staff awdurdodi defnyddio ataliaeth.
- Byddai'n rhai i'r uwch aelod o'r staff ystyried a fyddai defnyddio ataliaeth o dan yr amgylchiadau yn ymateb angenrheidiol a chymesur a bod y niwed sy'n debygol o gael ei achosi, drwy ganiatáu i'r ymddygiad aflonyddgar barhau, yn fwy nag:
 - (a) unrhyw niwed posibl (corfforol ac emosiynol) i'r person ifanc neu eraill o ganlyniad i ddefnyddio ataliaeth gyfyngedig wedi'i reoli;
 - (b) y risg y bydd defnyddio ataliaeth gan staff yn gwaethygu'r sefyllfa ac yn ysgogi ymateb mwy heriol gan y person ifanc fydd yn golygu y bydd angen i staff ddefnyddio technegau lefel uwch a allai effeithio ar y person ifanc ac eraill.

Cymhwyso ataliaeth gorfforol ar gyfer cynnal amgylchedd diogel a sefydlog

- Dim ond technegau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer eu defnyddio o dan yr amgylchiadau hyn ellir eu defnyddio. Fel gydag unrhyw ddigwyddiad ataliaeth, rhaid defnyddio LIRhAC ond ni fyddai'r technegau canlynol yn cael eu caniatáu; Plygu'r Arddwn, Plygu Bawd, techneg ongl madibl, Dal y Pen.
- Mae'n rhaid i'r staff ymateb gan ddefnyddio'r technegau lefel isaf yn seiliedig ar asesiad risg o'r sefyllfa sydd wedi'i gymeradwyo gan uwch aelod o'r staff. Mae hyn yn golygu, er y bydd tri aelod o staff ar gael, fel sy'n arferol yn achos unrhyw ataliaeth a gynllunnir, dim ond un neu ddau aelod o staff fydd yn gwneud y cysylltiad cyntaf, yn ddibynnol ar faint y person ifanc a maint yr aelodau staff. Petai'r ymddygiad heriol yn gwaethygu yna gall fod angen i'r trydydd aelod o staff roi cymorth pen wrth symud y person ifanc. Defnyddir cymorth pen yn y senario hon er mwyn sicrhau bod y technegau lefel isaf yn cael eu defnyddio mor ddiogel â phosibl.
- Dylid dilyn pob cam i barchu urddas ac uniondeb corfforol y person ifanc. Oherwydd bod yr ataliaeth wedi'i gynllunio, mae yna fwy o gyfle i ystyried a gweithredu camau o'r fath o'i gymharu â defnyddio ataliaeth am resymau eraill megis atal niwed. Mae enghreifftiau yn cynnwys symud eraill o'r lleoliad neu ddefnyddio sgriniau. Dylai defnyddio Offer Amddiffyn Personol fod yn gymesur â'r sefyllfa. Felly ni chaniateir defnyddio Offer Amddiffyn Personol llawn ym mhob digwyddiad.
- Bydd y digwyddiad yn cael ei ffilmio ar gamera llaw (neu ar gamerau corff mewn rhai achosion) gan aelod o staff nad yw'n un o'r tri aelod sy'n gweithredu'r ataliaeth. Gall y staff sy'n rhan o'r tîm o dri ddefnyddio camerau corff hefyd. Er ein bod yn deall y gellid ystyried bod ffilmio'r digwyddiadau hyn yn tramgwyddo urddas person ifanc, rydym yn ystyried bod yna fuddion sylweddol i gael cofnod ffilm o ddigwyddiad. Nid yw camerau cylch cyfyng bob amser ar gael ac efallai na fyddant yn y man iawn, felly mae ffilmio yn sicrhau bod yna gofnod cywir ar gael. Bydd y cofnod o gymorth i'r staff a'r bobl ifanc wrth adolygu'r digwyddiad, yn cynnwys os bydd y person ifanc yn gwneud cwyn. Yn ychwanegol at gyngor annibynnol, bydd hyn yn galluogi gweithredwyr, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, i adolygu a dysgu o ddigwyddiadau pan fo'n briodol, ac addasu polisiâu neu arferion os oes angen.

Mae sefyllfaoedd ataliaeth yn newidiol iawn ac mae'n rhaid i'r staff ailasesu'n rheolaidd a ydynt yn defnyddio'r dull iawn neu beidio. Efallai y bydd yna senarios pan fo digwyddiad yn cychwyn fel achos o ataliaeth a fwriedir er mwyn cynnal amgylchedd diogel a sefydlog yn esgoli i fod yn achos treisgar pan fo staff yn ceisio ymyrryd. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen i staff ailasesu a ellir parhau i reoli'r sefyllfa fel achos ataliaeth i gynnal amgylchedd diogel a sefydlog neu beidio. Yna efallai y bydd angen defnyddio mwy o rym fydd yn golygu y byddai'r polisi ar ddefnyddio grym ac ataliaeth er mwyn atal anaf i'r person ifanc ac eraill, atal neb rhag dianc o gystodaeth ac atal difrod i eiddo (fel y nodir uchod) yn gymwys.

Ar ôl defnyddio ataliaeth ar gyfer cynnal amgylchedd diogel a sefydlog

Byddai'r holl brosesau ôl-ataliaeth (er enghraifft, adrodd yn ôl) a nodir o dan egwyddorion ataliaeth yn gymwys yn dilyn defnyddio ataliaeth ar gyfer cynnal amgylchedd diogel a sefydlog. Oherwydd bod y broses benderfynu yn fwy cymhleth pan fo'r ataliaeth yn cael ei ddefnyddio i gynnal amgylchedd diogel a sefydlog, rydym yn cynnig sefydlu dulliau diogelu ychwanegol fydd yn gymwys yn dilyn digwyddiadau o'r fath. Mae'n rhaid i'r dulliau diogelu hyn fod yn gymwys hefyd pan fo digwyddiad wedi cychwyn fel achos o ataliaeth er mwyn cynnal amgylchedd diogel a sefydlog, ond a esgolodd i fod yn sefyllfa ble'r oedd angen defnyddio mwy o rym.

- Bydd Pennaeth Tîm Cenedlaethol LIRhAC yn monitro'r holl achosion o ataliaeth er mwyn cynnal amgylchedd diogel a sefydlog. Bydd hyn yn cynnwys nid yn unig edrych ar yr ataliaeth ei hun ond hefyd craffu ar y broses benderfynu. Bydd y broses hon yn cynnwys adolygu lluniau camerâu cylch cyfyng, lluniau o gamerâu llaw, adroddiadau gan staff ac allbynnau unrhyw sesiynau adrodd yn ôl. Bydd Pennaeth LIRhAC yn adrodd yn ôl ar y canfyddiadau i'r Coleg Diogel, Monitor a'r BCI.
- Mewn Colegau Diogel a gontractir allan, mae'n rhaid i'r Monitor gysylltu â'r person ifanc dan sylw cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad er mwyn cynnig cyfle i drafod yr ataliaeth.
- Rydym yn cynnig sefydlu panel annibynnol er mwyn asesu achosion ataliaeth er mwyn cynnal amgylchedd diogel a sefydlog. Mae'n debygol y byddai hyn yn digwydd yn chwarterol. Byddai'r panel yn adolygu lluniau fideo a dogfennau ategol sydd ar gael ac yn cyflwyno argymhellion i'r Monitor a strwythur llywodraethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid sy'n goruchwyllo'r defnydd a wneir o ataliaeth.

37. Cwestiwn: A ydych yn cytuno â'r dulliau diogelu y dylid eu defnyddio i) cyn ii) yn ystod a iii) ar ôl defnyddio ataliaeth ar gyfer cynnal amgylchedd diogel a sefydlog?

Rydym wedi darparu rheolau dangosol sy'n adlewyrchu'r cynigion, a nodir uchod, ar ddefnyddio grym mewn Colegau Diogel. Diben y rheolau dangosol hyw yw gosod y ffordd rydym yn disgwyl y byddai, yn amodol ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, defnyddio grym yn cael ei awdurdodi o dan y Rheolau Colegau Diogel. Wrth i ni ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, efallai bydd geiriad y rheolau dangosol yn esblygu.

Defnyddio Grym

- 1.— (1) *Bydd swyddog caethiwed coleg diogel, wrth ddelio â pherson ifanc, ddim ond yn cael defnyddio grym yn yr amgylchiadau canlynol—*
 - (a) *i atal anaf i'r person ifanc ac eraill;*
 - (b) *i atal neb rhag dianc o gystodaeth;*
 - (c) *i atal difrod i eiddo; neu*
 - (d) *er mwyn cynnal trefn a disgyblaeth dda, sef pan fo -*
 - (i) *pan fo person ifanc yn achosi risg i gynnal amgylchedd diogel a sefydlog yn y coleg diogel; ac*
 - (ii) *ae yna risg i ddiogelwch neu les-*
 - (aa) *y person ifanc y defnyddir yr ataliaeth gorfforol yn ei erbyn; neu*
 - (bb) *person ifanc arall.*
- (2) *Ni cheir defnyddio grym er mwyn cosbi person ifanc.*
- (3) *Ni chaiff aelod o staff ymddwyn mewn modd sydd yn bwrpasol ar gyfer pryfocio person ifanc.*
- (4) *Pan ddefnyddir unrhyw rym, mae lles y person a defnyddir y grym yn ei erbyn yn ystyriaeth sylfaenol.*

- (5) *Mae'n rhaid i unrhyw ddefnydd a wneir o rym, cyn belled â bod hynny'n rhesymol ymarferol, barchu urddas y person ifanc a dylai amddiffyn ei uniondeb corfforol.*
- (6) *Ni cheir defnyddio grym yn erbyn person ifanc oni bai ac i'r graddau bod hynny'n hollol angenrheidiol a chymesur ac ni cheir defnyddio mwy o rym nag sy'n angenrheidiol.*
- (7) *Yn amodol ar reol 1(8), ni awdurdodir defnyddio grym i achosi poen, oni bai fod hynny'n angenrheidiol i amddiffyn person (p'un ai'r person y defnyddir grym yn ei erbyn yw hwnnw neu berson arall) rhag risg uniongyrchol neu niwed corfforol difrifol.*
- (8) *Ni awdurdodir defnyddio grym a fwriedir i achosi poen yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn rheol 1(1)(d).*
- (9) *Yn amodol ar reol 1(10), cymaint ag sy'n rhesymol ymarferol, rhaid i ddefnyddio grym yn yr amgylchiadau sy'n cael eu disgrifio yn rheol 1(1)(a) i (c) fod drwy arfer ac yn unol â dulliau ataliaeth sydd wedi cael eu cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol a gan staff sydd wedi dilyn cwrs hyfforddi sydd wedi cael ei gymeradwyo felly.*
- (10) *Rhaid i ddefnyddio grym yn y sefyllfa a ddisgrifir yn rheol 1(1)(d) fod drwy arfer ac yn unol â dulliau ataliaeth sydd wedi cael eu cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol at y diben hynny a gan staff sydd wedi dilyn cwrs hyfforddi sydd wedi cael ei gymeradwyo felly.*
- (11) *Rhaid cofnodi manylion pob digwyddiad pan ddefnyddir grym yn erbyn person ifanc.*

Ataliaeth gorfforol

- 2.— (1) *Rhaid i unrhyw ddefnydd o dechneg ataliaeth gorfforol gymeradwy gael ei wneud mewn ffordd sy'n ystyried nodweddion ffisiolegol penodol y person ifanc dan sylw.*
- (2) *Yn yr amgylchiadau sy'n cael eu disgrifio yn rheol 1(1)(a) i (c), rhaid i aelod o'r staff gofal iechyd—*
 - (a) *pan fo'n bosibl fod wedi cael eu holi, cyn defnyddio techneg ataliaeth gorfforol gymeradwy; a*
 - (b) *cael gwybod cyn gynted ag sy'n ymarferol rhesymol ar ôl defnydd o'r fath.*
- (3) *Yn y sefyllfa sy'n cael ei disgrifio yn rheol 1(1)(d)—*
 - (a) *dim ond technegau sydd wedi'u cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer eu defnyddio yn y sefyllfa honno ceir eu defnyddio;*
 - (b) *ni awdurdodir defnyddio techneg ataliaeth gorfforol gymeradwy a fwriedir i achosi poen;*
 - (c) *rhaid cael awdurdod uwch aelod o staff cyn gallu defnyddio techneg ataliaeth gorfforol; a*

- (d) *rhaid ymgynghori ag aelod o'r staff gofal iechyd cynt, a rhaid iddynt fod yn bresennol yn ystod, defnyddio techneg ataliaeth gorfforol.*
- (4) *Rhaid i aelod priodol o staff a Monitor y Coleg Diogel adolygu manylion pob digwyddiad lle caiff person ifanc ei atal yn gorfforol o dan y rheol hon.*
- (5) *Cyn gynted ag sy'n ymarferol rhesymol ar ôl unrhyw ddigwyddiad sy'n cynnwys ataliaeth gorfforol o dan y rheol hon—*
- (a) *mae'n rhaid cynnig cyfle i'r person ifanc o dan sylw drafod y digwyddiad ac unrhyw fater cysylltiedig ag aelod priodol o'r staff;*
- (b) *ni ddylai trafodaeth o'r fath gael ei chynnal ac eithrio ym mhresenoldeb neu gyda chymorth eiriolwr annibynnol ar ran y person ifanc, oni bai fod y person ifanc yn mynegi fel arall; a*
- (c) *yn y sefyllfa a ddisgrifir yn rheol 1(1)(d), rhaid cynnig cyfle i'r person ifanc dan sylw drafod y digwyddiad ac unrhyw fater cysylltiedig â Monitor y Coleg Diogel.*

Gweithredol

Chwilio unigolion mewn Colegau Diogel

Mae chwiliadau yn ffordd bwysig o gynnal diogelwch mewn sefydliad diogel. Eu pwrpas yw atal eitemau na awdurdodir, megis cyffuriau, arfau a chontraband eraill rhag cael eu cario i mewn i'r sefydliad. Defnyddir chwiliadau hefyd er mwyn atal cario a chuddio'r eitemau hyn mewn cystodaeth, yn cynnwys y rhai hynny sy'n cael eu caffael drwy fwlio. Gall cael eich chwilio fod yn brofiad annifyr, yn arbennig os bydd y chwiliad yn golygu dadwisgo. Mae'n bwysig cael y cydbwysedd cywir rhwng defnyddio chwiliadau i sicrhau diogelwch a lles yr holl bobl ifanc a'r staff mewn Coleg Diogel a diogelu ac amddiffyn urddas a hawliau'r bobl ifanc sy'n cael eu chwilio.

Mae pob sefydliad yn yr ystâd ieuenctid bresennol ar hyn o bryd yn gweithredu dull o chwilio sy'n seiliedig ar risg. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad bod angen gwybodaeth er mwyn cynnal chwiliad llawn yn achos pobl ifanc. **Rydym yn cynnig sefydlu Rheol fydd yn nodi'n fanwl o dan ba amgylchiadau y gellir cynnal y gwahanol fathau o chwiliadau ac y bydd hynny'n adlewyrchu'r arferion cyfredol o ran cynnal chwiliadau sy'n seiliedig ar risg.** Rydym hefyd yn cynnig y gwahaniaethir yn y Rheolau rhwng chwiliad 'elfennol' a chwiliad 'llawn'.

Gellir canfod llawer o eitemau drwy chwiliad 'elfennol'. Mae hwn yn chwiliad all olygu gofyn i berson dynnu dillad allanol megis siacedi, esgidiau, sgarff neu fenig, a 'patio'r' person o bosibl er mwyn ceisio canfod eitemau cudd. Byddai'r math hwn o chwiliad yn cael ei ganiatáu wrth i berson ifanc gyrraedd Coleg Diogel a phan fo achos rhesymol dros amau bod person ifanc yn cuddio eitem nad yw wedi'i awdurdodi.

Chwiliad llawn yw pan fo'n ofynnol i berson ifanc dynnu mwy na'i ddillad allanol. **Rydym yn cynnig sefydlu Rheol fyddai'n caniatáu chwiliad llawn o dan amgylchiadau penodol yn unig.** Er mwyn sicrhau mai dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol y cynhelir chwiliad llawn, rydym yn cynnig sefydlu amodau eglur y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir cynnal chwiliad o'r fath. Byddai chwiliad llawn yn cael ei ganiatáu pan fo achos rhesymol i amau bod person ifanc yn cuddio eitem sydd yn: achosi risg o niwed i unrhyw berson ifanc yn y Coleg; neu'n gyffur sy'n cael ei reoli neu unrhyw eitem anghyfreithlon arall; neu

gellid ei ddefnyddio at bwrpas dianc; a byddai chwiliad llawn yn angenrheidiol er mwyn canfod yr eitem.

Mae'n rhaid cynnal chwiliad llawn mewn ffordd sy'n caniatáu cymaint o urddas â phosibl i'r person ifanc. Byddid ond yn caniatáu tynnu'r dillad sy'n angenrheidiol at bwrpas y chwiliad. Hefyd, byddai'r chwiliad llawn yn cael ei gynnal y tu hwnt i olwg unrhyw berson ifanc arall, a dim ond gyda dau swyddog yn bresennol, a'r ddau o'r un rhyw â'r person ifanc.

Gellir canfod eitemau hefyd drwy ddefnyddio mwy o dechnoleg megis gwialenni datgelu metel, pyrth neu seddi ac offer darlledu ffonau symudol.

Rydym hefyd yn cynnig sefydlu Rheol fydd yn caniatáu stopio a chwilio unrhyw berson neu gerbyd fydd yn cyrraedd neu'n gadael Coleg Diogel. Rydym hefyd yn cynnig sefydlu Rheol fydd yn caniatáu i'r Pennaeth atafaelu unrhyw eitem nad yw wedi ei awdurdodi a ganfyddir yn dilyn chwiliadau a gynhelir yn y Colegau Diogel.

38. Cwestiwn: A ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu Rheol fydd yn nodi'n fanwl o dan ba amgylchiadau y gellir cynnal y gwahanol fathau o chwiliadau a bod hynny'n adlewyrchu'r arferion cyfredol o ran cynnal chwiliadau sy'n seiliedig ar risg?

39. Cwestiwn: A ydych chi'n cytuno mai dan yr amgylchiadau a amlinellir uchod yn unig y dylid caniatáu chwiliadau?

Eitemau gwaharddedig

Byddai angen i'r Pennaeth sicrhau bod diogelwch sefydliad yn cael ei gynnal bob amser. Mae Adrannau 40A-F o Ddeddf Carchardai 1952 yn creu troseddau penodol, sef cario (mewn nifer o ffyrdd) eitemau penodol heb awdurdod i mewn i garchardai, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel, ac, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth seneddol, Colegau Diogel. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi eitemau penodol at bwrpas y troseddau hyn, megis ffrwydrion ac arfau tân, sy'n ymddangos yn 'rhestr A' a chamerau a ffonau symudol, sy'n ymddangos yn 'rhestr B'. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn caniatáu i Reolau nodi eitemau ychwanegol o dan 'restr C' (gweler adran 40A (6) ac adran 34 (5A)).

Mae Rheolau Carchardai 1999 a Rheolau Sefydliadau Troseddwyr Ifanc 2000 eisoes wedi gwneud darpariaeth ar gyfer categori rhestr C. Rydym yn cynnig sefydlu Rheol fydd yn efelychu'r rhestr hon mewn perthynas â Cholegau Diogel. **Rydym yn cynnig Rheol i gopïo'r rhestr hon mewn perthynas â Cholegau Diogel.** I bob pwrpas byddai hyn yn golygu pan fo person yn cario eitem a restrir isod heb awdurdod i Goleg Diogel, neu'n ei adael yn rhywle, gyda'r bwriad bod yr eitem yn dod i feddiant person ifanc, bod y person hwnnw yn troseddu. Yr eitemau yw tybaco, arian, dillad, bwyd, diod, llythyrau, papur, llyfrau, tŵls; ac offer technoleg gwybodaeth.

Mae'r eitemau ar y rhestr hon yn amrywio o rai a ddefnyddir ar brydiau i guddio contraband (megis llyfrau), rhai ellid eu defnyddio i gynorthwyo rhywun i ddianc neu i gynllunio i droseddu (megis offer technoleg gwybodaeth) a rhai, er mwyn prynu'r eitem honno, allai arwain at anaf ym meddiant person (megis arian). Byddai technoleg gwybodaeth hefyd yn cynnwys mathau gwahanol o gyfrifiaduron a chonsolau gemau.

40. Cwestiwn: A ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu Rheol sy'n nodi rhestr C o eitemau gwaharddedig ar gyfer Colegau Diogel?

Cyfathrebu

Rydym yn cynnig y bydd y Rheolau yn nodi fframwaith ar gyfer rhyng-gipio a therfynu cyfathrebiadau rhwng pobl ifanc ac unigolion y tu allan i Goleg Diogel. O dan y Rheolau hyn byddid yn caniatáu rhyng-gipio neu derfynu cyfathrebiadau os bydd angen gwneud hynny am un o'r rhesymau canlynol:

- materion yn ymwneud â diogelwch cenedlaethol;
- atal, canfod, ymchwilio neu erlyn troseddau;
- materion yn ymwneud â diogelwch cyhoeddus;
- diogelu neu gynnal diogelwch neu drefn yn y coleg;
- amddiffyn iechyd neu foesau;
- amddiffyn hawliau a rhyddid unrhyw berson (cyfathrebiadau ysgrifenedig yn unig)

Bydd rhyng-gipio neu derfynu ond yn cael ei ganiatáu i'r graddau ei fod yn gymesur i'r hyn a geisir ei gyflawni drwy wneud hynny. Bydd yn rhaid i'r Pennaeth ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth ryng-gipio neu derfynu.

Cynigir dulliau diogelu ychwanegol a phenodol mewn perthynas â chyfathrebiadau cyfrinachol a chyfreithiol. Byddai rhyng-gipio gohebiaeth dim ond yn cael ei ganiatáu os yw'r Pennaeth yn fodlon mai diben y cyfathrebu yw hyrwyddo diben troseddol. Byddai hyn hefyd yn gymwys i alwadau ffôn cyfrinachol a galwadau drwy faint gyfreithiol a byddai'n gymwys hefyd i unrhyw ddeunydd drwy faint gyfreithiol.

41. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylai Rheolau nodi fframwaith ar gyfer rhyng-gipio a therfynu cyfathrebiadau rhwng pobl ifanc ac unigolion y tu allan i Goleg Diogel?

Datgelu a chadw data

Rydym yn cynnig bod y Rheolau yn creu fframwaith ar gyfer datgelu a chadw gwybodaeth a gesglir o ganlyniad i ryng-gipio cyfathrebiadau a lluniau camerâu cylch cyfyng o ymweliadau.

O dan y cynigion hyn, oni bai y ceir caniatâd gan yr holl bartïon perthnasol, ni fyddir yn caniatáu datgelu deunyddiau wedi'u rhyng-gipio a lluniau camerâu cylch cyfyng i unrhyw un ac eithrio cyflogeion Colegau Diogel a swyddogion penodol oni bai bod hynny'n angenrheidiol ar sail un o'r rhesymau canlynol, ac yna dim ond i'r graddau sy'n gymesur â'r hyn sydd ei angen i gyflawni'r amcan hwnnw:

- materion yn ymwneud â diogelwch cenedlaethol;
- atal, canfod, ymchwilio neu erlyn troseddau;
- materion yn ymwneud â diogelwch cyhoeddus;
- diogelu neu gynnal diogelwch neu drefn yn y Coleg Diogel;
- amddiffyn iechyd neu foesau;
- amddiffyn hawliau a rhyddid unrhyw berson

Rydym hefyd yn cynnig Rheol i atal cadw deunyddiau wedi'u rhyng-gipio neu luniau camerâu CCTV o ymweliadau ar ôl tri mis, oni bai fod cyfiawnhad dros hynny am un o'r rhesymau a restrir uchod. Hyd yn oed wedyn bydd y cynnig i gadw deunyddiau o'r fath dim ond yn cael ei ganiatáu i'r graddau sy'n angenrheidiol i ddiwallu nod y cadw.

42. Cwestiwn: A ydych chi'n cytuno y dylai'r Rheolau greu fframwaith ar gyfer datgelu a chadw gwybodaeth a gesglir o ganlyniad i ryng-gipio cyfathrebiadau a lluniau camerâu cylch cyfyng o ymweliadau?

43. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylid cael Rheol i atal cadw deunyddiau wedi'u rhyng-gipio neu luniau camerâu CCTV o ymweliadau ar ôl tri mis, oni bai fod cyfiawnhad dros hynny am un o'r rhesymau a restrir uchod?

Eiddo personol

Rydym yn cynnig sefydlu Rheol sy'n sicrhau bod eiddo personol yn cael eu cadw'n ddiogel, y gofelig am eu cyflwr, a'u bod ar gael pan fo'r person ifanc yn cael ei ryddhau o gystodaeth neu ar gyfer mynychu llys pan fo'r angen.

Carcharorion sifil a phobl ifanc nad ydynt wedi eu collfarnu

Yn y system gystodaeth bresennol, mae carcharorion sifil a phobl ifanc nad ydynt wedi eu collfarnu yn cael eu dosbarthu ar wahân i'r rhai sydd â cholffarn droseddol yn eu herbyn, ac o ganlyniad maent wedi cael eu trin yn wahanol. Bydd angen i'r Colegau Diogel adlewyrchu'r gwahaniaethu perthnasol sydd wedi'i sefydlu ar gyfer carcharorion sifil a phobl ifanc nad ydynt wedi eu collfarnu.

Rydym felly'n cynnig sefydlu Rheolau fydd yn nodi'r canlynol mewn perthynas â charcharorion sifil a phobl ifanc nad ydynt wedi eu collfarnu:

- ni fydd gofyn iddynt rannu llety â phobl ifanc a gollfarnwyd;
- gallant gael cymaint o ymweliadau, anfon a derbyn cymaint o gyfathrebiadau a gwneud a derbyn cymaint o alwadau ffôn ag y dymunent cyn belled â'u bod yn cytuno i dalu am unrhyw gostau a bod hynny'n ddarostyngedig i unrhyw amodau a nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Rydym yn cynnig y dylid caniatáu i'r Pennaeth osod cyfyngiadau neu amodau ar y ffrainc hon, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol, er mwyn sicrhau bod y Coleg Diogel yn cael ei redeg yn briodol. Er enghraifft, gall y Pennaeth benderfynu gosod amodau fel na fydd y breintiau hyn yn ymyrryd â gallu'r bobl ifanc i fynyachu eu dosbarthiadau addysg.
- gallant wneud cais, ar eu cost eu hunain, i gael eu trin gan eu meddyg neu eu deintydd eu hunain;
- gallant wisgo eu dillad eu hunain.

44. Cwestiwn: A ydych yn cytuno â'r Rheolau a gynigir mewn perthynas â rhoi triniaeth wahanol i bobl ifanc nad ydynt wedi eu collfarnu a charcharorion sifil?

Alcohol a thybaco

Rydym yn cynnig sefydlu Rheol ar gyfer gwahardd alcohol a thybaco ar unrhyw ran o Goleg Diogel neu diroedd y coleg. **Bydd yn gymwys i bobl ifanc, swyddogion**

gwarchodaeth, aelodau eraill o staff Colegau Diogel ac ymwelwyr. Rydym hefyd yn cynnig sefydlu Rheol ar gyfer gwahardd ysmegu ar dir Colegau Diogel.

Cydraddoldeb²

Mae unigolion sy'n rhannu rhai nodweddion gwarchodedig yn cael eu gorgynrychioli ymysg pobl ifanc mewn cystodaeth wrth gymharu â phobl ifanc o'r un oed yn y boblogaeth gyffredinol. O'r hewydd, bydd y rheolau a gynigir yn effeithio ar gyfran uwch o'r rheini mewn cystodaeth sy'n rhannu'r nodweddion gwarchodedig hynny wrth gymharu â'r gyfran sydd â'r nodweddion hyn yn y boblogaeth yn gyffredinol.

Fodd bynnag, yn ein barn i nid yw effaith y cynlluniau ar gyfer Rheolau yn anghymesur ac mae'n ffordd resymol i gyflawni nod cyfreithlon. Bydd y Rheolau Colegau Diogel yn rhoi gofynion craidd y bydd yn rhaid i ddarparwyr eu diwallu er mwyn sicrhau bod anghenion pobl ifanc, ac yn enwedig eu anghenion o ran addysg, iechyd, lles a diogelwch, yn cael eu diwallu. Rydym yn fodlon na fydd ein dull gweithredu o ran y Rheolau yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol ar sail unrhyw nodwedd warchodedig ac ni fydd yn arwain at drin unrhyw grŵp sydd â nodwedd warchodedig mewn ffordd llai ffafriol.

Byddwn yn diweddarau ein hasesiadau ar ôl ystyried yr holl ymatebion perthnasol i'r ymgynghoriad hwn.

45. Byddem yn croesawu unrhyw wybodaeth berthnasol er mwyn cyfrannu at ein dadansoddiad ac er mwyn cael dealltwriaeth well o effeithiau posibl y cynigion ar gydraddoldeb.

² Wrth ystyried ein dyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydym wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r angen i: ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, harasio ac erledigaeth ac ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol (y rheini sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rheini sydd ddim); a meithrin perthnasau da rhwng grwpiau gwahanol (y rheini sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rheini sydd ddim).

Mae angen ystyried rhoi 'ystyriaeth ddyledus' yn erbyn y nawr "nodwedd warchodedig" o dan y Ddeddf Cydraddoldeb - sef hil, rhyw, anabled, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oed, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth.

Holiadur

1. A ydych yn cytuno y dylid cael Rheol mewn perthynas â phwrpas ac ethos Coleg Diogel? Os ydych, a ydych yn meddwl ein bod wedi ystyried y blaenoriaethau priodol?
2. A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol sy'n sicrhau llety ar wahân i enethod a bechgyn?
3. A ydych yn cytuno y dylid cael Rheol a fyddai'n golygu ei bod yn rhaid sefydlu o leiaf 30 awr yr wythnos o weithgareddau addysgol ar gyfer pobl ifanc?
4. A ydych yn cytuno y dylid cael Rheolau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i bob person ifanc gael asesiad dysgu unigol wrth gyrraedd Coleg Diogel a llunio cynllun dysgu unigol?
5. A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparu llyfrgell mewn Colegau Diogel?
6. A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol bod yr holl staff gwarchodol sy'n gweithio mewn Colegau Diogel wedi derbyn hyfforddiant sydd wedi'i gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol?
7. A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol fydd yn gofyn i Golegau Diogel gael polisi cod gwisg?
8. A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol i sicrhau bod gan berson ifanc fynediad diogel a phrydlon i wasanaethau iechyd mewn Colegau Diogel?
9. A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol i sicrhau bod Colegau Diogel yn darparu mynediad diogel a phrydlon i weithwyr gofal iechyd proffesiynol i gynnal asesiad gofal iechyd?
10. A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol sy'n nodi'r cyfleusterau y dylid eu darparu yn ystod y noson gyntaf o dan warchodaeth? Os ydych, beth ydych yn meddwl dylid ei gynnwys?
11. A ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu Rheol fydd yn sicrhau bod yn rhaid i Golegau Diogel ddarparu gwybodaeth allweddol i berson ifanc pan fydd yn cyrraedd y Coleg? Os ydych, a oes yna wybodaeth benodol y dylai ei gynnwys?
12. A ydych yn cytuno y dylid sefydlu rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo'r lletyau cysgu?
13. A ydych hyn cytuno bod Rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparu dillad gwely i bobl ifanc sy'n ddigonol o ran cynhesrwydd ac iechyd?
14. A ydych yn cytuno y dylid sefydlu rheol sy'n golygu y byddai rhannu ystafell dim ond yn digwydd ar ôl gwneud asesiad risg sy'n casglu na fyddai'n niweidiol i ddiogelwch a lles person ifanc cyn i unrhyw rannu ystafelloedd ddigwydd?

15. A ydych yn cytuno y dylid cael Rheol ynghylch bwyd? Os ydych, a ydych yn cytuno bod y cynnig uchod yn ymdrin yn ddigonol â'r hyn y dylid ei gynnwys mewn Rheol o'r fath?
16. A ydych yn cytuno y dylid cael Rheol ar yr hawl i gawodydd?
17. A ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu Rheol fydd yn gofyn i'r Pennaeth sefydlu cynllun ymweliadau fydd yn golygu bod gan bob person ifanc yr hawl i o leiaf un ymweliad yr wythnos?
18. A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth ddyfeisio polisi ar gyfer cyfathrebu personol, fyddai'n cynnwys cyfathrebu electronig?
19. A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol i sicrhau bod pobl ifanc mewn Colegau Diogel yn gallu dilyn ac arfer eu credoau crefyddol?
20. A ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu Rheol i sicrhau y gellir rhyddhau person ifanc dros dro er mwyn cefnogi ei adsefydlu?
21. A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol sy'n nodi rhesymau, nad yw adsefydlu yn eu cynnwys, dros ryddhau pobl ifanc dros dro?
22. A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol sy'n gofyn i'r Pennaeth sefydlu gweithdrefn gwyno? Os ydych, a ddylai'r Monitor gymeradwyo'r weithdrefn hon?
23. A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol fydd yn caniatáu'r Ysgrifennydd Gwladol i benodi eiriolwyr mewn Colegau Diogel?
24. A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol fydd yn caniatáu'r Ysgrifennydd Gwladol i benodi person annibynnol i ymchwilio i faterion sy'n peri pryder?
25. A ydych yn cytuno y dylid sefydlu rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Bennaeth sefydlu cynllun gwobrau a sancsiynau, ac y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo'r cynllun hwn?
26. A ydych yn cytuno y dylid sefydlu Rheol sy'n sefydlu gweithdrefn ar gyfer dyfarnwyr annibynnol mewn Colegau Diogel?
27. A ydych yn cytuno y dylid cael Rheol a fyddai'n galluogi'r Pennaeth i roi sancsiynau am droseddau difrifol mewn cystodaeth?
28. A ydych yn cytuno ei bod hi'n briodol defnyddio'r troseddau a restrir yn Rheol Sefydliadau Troseddwyr Ifanc 55 fel sail ar gyfer troseddau o dan y Rheolau a allai fod yn destun dyfarniad?
29. A ydych yn cytuno â'r sancsiynau arfaethedig sydd ar gael i'r Pennaeth mewn proses ddyfarnu ar gyfer rheoli ymddygiad difrifol?
30. A ydych yn cytuno y dylid cael Rheol sy'n dilyn yr amserlenni sy'n cael eu dilyn mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ar gyfer rheoli dyfarniadau?
31. A ydych yn cytuno y dylid cael Rheol bod unrhyw berson ifanc sy'n cael ei gyhuddo o drosedd o dan y Rheolau yn cael cyfle iawn i gyflwyno ei achos?

32. Rydym yn croesawu safbwyntiau ar ba drefniadau diogelu ddylid eu cynnwys yn y Rheolau i sicrhau bod gwahanu yn cael ei ddefnyddio'n briodol?
33. A ydych yn cytuno â'n cynigion ynghylch pryd y gellir awdurdodi defnyddio grym?
34. A ydych yn cytuno â'r egwyddorion fyddai'n cael eu cymhwyso i ddefnyddio grym o unrhyw fath? A oes yna unrhyw egwyddorion eraill i'w hystyried?
35. A ydych yn cytuno â'n hegwyddorion y dylid eu cymhwyso i ddefnyddio ataliaeth gorfforol o unrhyw fath?
36. A ydych yn cytuno bod ein hesboniad o beth yw ystyr trefn a disgyblaeth dda - hy cynna amgylchedd diogel a sefydlog - yng nghyd-destun grym yn adlewyrchu'n gywir yr amgylchiadau sy'n golygu bod angen defnyddio ataliaeth?
37. A ydych yn cytuno â'r dulliau diogelu y dylid eu defnyddio i) cyn ii) yn ystod a iii) ar ôl defnyddio ataliaeth ar gyfer cynnal amgylchedd diogel a sefydlog?
38. A ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu Rheol fydd yn nodi'n fanwl o dan ba amgylchiadau y gellir cynnal y gwahanol fathau o chwiliadau a bod hynny'n adlewyrchu'r arferion cyfredol o ran cynnal chwiliadau sy'n seiliedig ar risg?
39. A ydych chi'n cytuno mai dan yr amgylchiadau a amlinellir uchod yn unig y dylid caniatáu chwiliadau?
40. A ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu Rheol sy'n nodi rhestr C o eitemau gwaharddedig ar gyfer Colegau Diogel?
41. A ydych yn cytuno y dylai Rheolau nodi fframwaith ar gyfer rhyng-gipio a therfynu cyfathrebiadau rhwng pobl ifanc ac unigolion y tu allan i Goleg Diogel?
42. A ydych chi'n cytuno y dylai'r Rheolau greu fframwaith ar gyfer datgelu a chadw gwybodaeth a gesglir o ganlyniad i ryng-gipio cyfathrebiadau a lluniau camerâu cylch cyfyng o ymweliadau?
43. A ydych yn cytuno y dylid cael Rheol i atal cadw deunyddiau wedi'u rhyng-gipio neu luniau camerâu CCTV o ymweliadau ar ôl tri mis, oni bai fod cyfiawnhad dros hynny am un o'r rhesymau a restrir uchod?
44. A ydych yn cytuno â'r Rheolau a gynigir mewn perthynas â rhoi triniaeth wahanol i bobl ifanc nad ydynt wedi eu collfarnu a charcharorion sifil?
45. Byddem yn croesawu unrhyw wybodaeth berthnasol er mwyn cyfrannu at ein dadansoddiad ac er mwyn cael dealltwriaeth well o effeithiau posibl y cynigion ar gydraddoldeb.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i roi gwybodaeth i ni amdanoch chi

Enw llawn	
Teitl swydd neu ym mha rinwedd yr ydych yn ymateb i'r ymarferiad ymgynghorol hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd etc.)	
Dyddiad	
Enw cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod Post	
Os dymunwch i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn os gwelwch yn dda	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth ato, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, dywedwch wrthym beth yw enw'r grŵp a rhowch grynodedb am y bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

Manylion cysylltu/Sut i ymateb

Ymatebwch erbyn 27 Tachwedd 2014 yn: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/plans-for-secure-college-rules>

Ffyrdd eraill o ymateb:

Secure College Rules Team

Ministry of Justice

8.19

102 Petty France

London SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 5418

E-bost: securecollegerules@justice.gsi.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch o broses ymgynghori dylech cysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Grwpiau cynrychioladol

Gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi crynodeb o'r bobl a'r mudiadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

Cyfrinachedd

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu'r wybodaeth a ddarperir yn yr ymgynghoriad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â'r cyfundrefnau mynediad i wybodaeth (sef, yn sylfaenol, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG), Deddf Diogelu Data 1998 (DDD) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych eisiau i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol, o dan y DRhG, bod yna God Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef, ac mae hwnnw'n delio ag ymrwymadau o ran cyfrinachedd, ymysg materion eraill. O ystyried hyn, byddai'n help i ni petaech yn gallu egluro pam eich bod yn ystyried bod y wybodaeth yr ydych wedi ei darparu yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni ystyrir y bydd ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn ymrwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r DDD, ac yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partion.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn cael eu nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

ISBN 978-1-4741-1113-3



9 781474 111133